# Cynnwys

Rhaglen 2
Cofnodion y cyfarfod diwethaf 7
5 - Adolygiad o drefniadau y Gwasanaeth Galluogi 15
6 - Arbedion Effeithlonrwydd - Gwasanaethau Trais yn y Cartref De Gwynedd a Chymorth i Ferched Bangor 19
Atodiad 1 22
Atodiad 2 25
Atodiad 3 28
7 - Ymweliadau Statudol i Blant mewn Gofal - Mesurydd SCC-025 35
9 - Diweddariad Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion 37

**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU

# SERVICES SCRUTINY COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10.30 a.m. DYDD IAU, 12 CHWEFROR 2015**

**10.30 a.m. THURSDAY, 12 FEBRUARY 2015**

Lleoliad / Location

**SIAMBR HYWEL DDA**

**SWYDDFEYDD Y CYNGOR**

**CAERNARFON**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**GLYNDA O'BRIEN**

**01341 424 301**

**: GlyndaOBrien@gwynedd.gov.uk**

Dosbarthwyd: 05.02.15

## PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU
## SERVICES SCRUTINY COMMITTEE

**AELODAETH / MEMBERSHIP (18)**

### Plaid Cymru (9)

Y Cynghorwyr / Councillors

Sedd Wag
Chris Hughes
Elin Walker Jones
Liz Saville Roberts
Alan Jones Evans
Selwyn Griffiths
W. Tudor Owen
Ann Williams
Hefin Williams

### Annibynnol / Independent (4)

Y Cynghorwyr / Councillors

Eryl Jones-Williams
Dewi Owen
Beth Lawton
Eirwyn Williams

### Llais Gwynedd (3)

Alwyn Gruffydd
Peter Read
Gweno Glyn

### Llafur / Labour (1)

Y Cynghorydd / Councillor Sion Wyn Jones

### Aelod Unigol / Individual Member (1)

Y Cynghorydd / Councillor Linda Ann Wyn Jones

### Aelodau Ex-officio / Ex-officio Members

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor / Chairman and Vice-Chairman of the Council – Y Cynghorwyr / Councillors Dewi Owen a / and Dilwyn Morgan

**AELODAU CYFETHOLEDIG / CO-OPTED MEMBERS:**

**Hefo pleidlais ar faterion addysg yn unig /**
**With a vote on education matters only**

Y Parchedig / Reverend Robert Townsend
Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales

Mrs Rita Price
Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church

Mr Dylan Davies
Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Meirionnydd / Representative for Meirionnydd Parent Governors

(Disgwyl am enwebiad / Awaiting Nomination)
Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Arfon / Representative for Arfon Parent Governors

Ms Rhian Roberts
Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Dwyfor / Representative for Dwyfor Parent Governors

***Noder – amcan yn unig yw'r amseroedd a nodir ar y rhaglen***

**R H A G L E N**

1. **YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. **MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. **COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2014.

(Copi'n amgaeedig – papur **gwyn)**

5. **ADOLYGIAD O DREFNIADAU Y GWASANAETH GALLUOGI**
***Aelod Cabinet Gofal – Y Cyng. Gareth Roberts***

10.30 am – 11.00 am

I ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet ar yr uchod.

(Copi'n amgaeedig – papur **gwyrdd**)

6. **ARBEDION EFFEITHLONRWYDD 2015/16 – 2016/17 (GWASANAETHAU TRAIS YN Y CARTREF DE GWYNEDD A CHYMORTH I FERCHED BANGOR)**
***Aelod Cabinet Plant a Theuluoedd : Y Cyng. Mair Rowlands***

11.00 a.m – 11.30 a.m.

I ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet ar yr uchod.

(Copi'n amgaeedig – papur **pinc)**

7. **MONITRO PERFFORMIAD (MESURYDD SCC/025) YMWELIADAU STATUDOL Â PHLANT SY'N DERBYN GOFAL**
***Aelod Cabinet Plant a Theuluoedd: Y Cyng. Mair Rowlands***

11.30 a.m – 11.45 a.m.

I ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet ar yr uchod.

(Copi'n amgaeedig – papur **eog)**

**8.** **<u>CYFLWYNIADAU</u>**
***Aelod Cabinet: Y Cyng. Gareth Thomas***

11.45 a.m. – 12.30 p.m.

(a) I dderbyn cyflwyniad gan ESTYN yn dilyn eu hymweliad ôl-arolwg o'r gwasanaeth addysg.

<u>(Copi i ddilyn)</u>

(b) I dderbyn cyflwyniad byr gan y Pennaeth Addysg ar ei weledigaeth i'r Gwasanaeth Addysg i'r dyfodol yn dilyn ei benodiad i'r swydd yn ddiweddar.

**9.** **<u>DIWEDDARIAD RHAGLEN TREFNIADAETH YSGOLION</u>**
***Aelod Cabinet: Y Cyng. Gareth Thomas***

12.30 p.m. – 1. 00 p.m.

I ystyried adroddiad gan yr Aelod Cabinet ar yr uchod.

<u>(Copi'n amgaeedig – papur **hufen**)</u>

# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU 11.12.14

**Yn bresennol**: **Y Cyng. Peter Read (Cadeirydd)**
**Y Cyng. Beth Lawton (Is-gadeirydd)**

Y Cynghorwyr: Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Elin Walker Jones, Sion Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Ann Williams, Eirwyn Williams a Hefin Williams.

**Aelodau Cyfetholedig gyda phleidlais ar faterion addysg yn unig:** Parchedig Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru)

**Eraill a wahoddwyd:** Y Cyng. Gareth Thomas (Aelod Cabinet Addysg)
Y Cyng. R H Wyn Williams (Aelod Cabinet Gofal)
Y Cyng. Mair Rowlands (Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc a Hamdden).

**Hefyd yn Bresennol:** Morwenna Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Marian Parry Hughes (Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd), Glenda Lloyd Evans (Rheolwr Gwasanaeth Pobl Hŷn), Nicola Hughes (Swyddog Prosiect Hyrwyddo Ansawdd Ysgolion Uwchradd), Elfyn Vaughan Jones (Uwch Ymgynghorydd Her GwE), Alwyn Jones (Uwch Ymgynghorydd Her GwE), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), Gareth James (Rheolwr Aelodau Cefnogi a Chraffu) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Huw Edwards, Dewi Owen, Liz Saville Roberts, Mrs Rita Price (Yr Eglwys Gatholig), Mr Neil Foden (Undeb Athrawon).

## 1. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

**(a)** Anfonwyd cofion y Pwyllgor at y Cynghorydd Huw Edwards a oedd yn absennol oherwydd gwaeledd.

**(b)** Llongyfarchwyd staff a disgyblion Ysgol Hafod Lon am Gyngerdd Nadolig ardderchog a gynhaliwyd yn ddiweddar.

**(c)** Croesawyd y canlynol i'r cyfarfod:

- Y Cyng. Mair Rowlands yn ei rôl newydd fel Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc a Hamdden
- Y Cyng. Gweno Glyn fel aelod newydd o'r Pwyllgor
- Mr Marc Roberts a Ms Vicky Poole, Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol (ar gyfer Eitem 5 – Adroddiad Blynyddol AGGCC)

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Linda Ann Wyn Jones fuddiant personol yn Eitem 6 (a) – Arbedion Addasu Cytundebau Darparwyr oherwydd ei bod yn Brif Weithredwr Cwmni Seren. Roedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar yr eitem dan sylw.

## 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 2 Hydref 2014.

## 4. ADRODDIAD BLYNYDDOL (AGGCC)

Cyflwynwyd adolygiad a gwerthusiad o berfformiad blynyddol Cyngor Gwynedd gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

(a) Noda'r adroddiad lle bu cynnydd a'r meysydd lle mae angen gwella ym maes Gwasanaethau Cymdeithasol. Adroddodd Mr Marc Roberts (AGGCC) bod ôl gwaith caled gan reolwyr a staff y Gwasanaethau Cymdeithasol a bod elfennau o'r cynlluniau yn heriol iawn gyda rhaglen waith enfawr i'w gwireddu yn unol â'r gyllideb ariannol. Gwelwyd gwelliant yn nhrefniadaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ogystal â'r weledigaeth sydd gan y Cyngor.

(b) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol:

(i) Yn wyneb yr holl newidiadau mewn deddfwriaeth a'r gofynion ohonynt, sut y gellir sicrhau bod gwelliannau yn cael eu gweithredu yn unol ag anghenion a gofynion y defnyddwyr. Mewn ymateb, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddir yn rhoi trigolion Gwynedd yn flaenllaw i'r hyn a weithredir ond ei fod yn golygu newid i'r defnyddwyr ond drwy gyd-weithio byddir yn sicrhau'r gwasanaeth gorau i unigolion.

(ii) Mynegwyd pryder na ellir gwireddu arbedion heb effeithio ar wasanaeth i unigolion a'i fod yn anodd gwneud toriadau.

(iii) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn ag arweiniad a chyfrifoldeb i wireddu dyhead AGGCC, nodwyd ei fod yn allweddol i Aelodau gefnogi moderneiddio'r Gwasanaeth, dylanwadu ar y Bwrdd Iechyd, a monitro sut mae'r Gwasanaeth yn ymdrin â'r defnyddwyr.

(iv) O safbwynt dylanwadu ar y Bwrdd Iechyd, nodwyd bod hyn wedi bod yn anodd i'r Cyngor yn y gorffennol a hyderir y bydd cyd-weithio cadarn i'r dyfodol o ran tegwch i'r defnyddwyr.

(v) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn ag effaith y newidiadau ar y fframwaith gofal cartref cymunedol, esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai newid mewn patrwm o anghenion y defnyddwyr oherwydd bod cost y pen i unigolyn ag anghenion dwys i aros gartref yn uchel. Rhaid sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cyfrannu at y pecynnau cymhleth sydd yn bodoli bellach. Byddai'n ofynnol ystyried rhagamcanion a thargedu fwy i'r dyfodol er sicrhau'r budd gorau o'r arian i'r defnyddwyr.

(vi) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â rôl y Cyfarwyddwr Corfforaethol, nododd cynrychiolydd AGGCC ei fod yn ymwybodol bod cynnydd wedi ei wneud ac y byddir yn trafod ymhellach yn ystod y flwyddyn gyda'r Cyfarwyddwr a'r Prif Weithredwr yn unol â chanllawiau o safbwynt cyfrifoldebau a chytuno ar brosesau a phrotocol o gofio hefyd y bydd oblygiadau yn deillio o newidiadau yn dilyn cyhoeddiad o'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol.

(vii) Esboniwyd yng nghyd-destun Cynllun Strategol gyda'r Bwrdd Iechyd o safbwynt meddwl plant, bod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal ar lefel rheolaethol ac yn edrych ar faterion mynediad i blant a phobl ifanc ac argaeledd y gwasanaethau sydd ar gael iddynt yn lleol a thu allan i'r Sir.

(viii) Pryder ynglŷn â phwysau gwaith ychwanegol oherwydd absenoldeb staff. Mewn ymateb, nodwyd bod trefniadau mewn lle i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Rheolwyr Gwasanaethau Oedolion bontio'r bwlch gydag arbenigwr allanol yn arwain ar brosiectau penodol.

(ix) Gofynnwyd am sicrwydd bod Aelodau etholedig yn derbyn gwybodaeth ynglŷn â chwynion ac awgrymwyd y byddai'n fuddiol cyflwyno papur cychwynnol i gyfarfod paratoi'r Pwyllgor Craffu hwn ar brosesau'r drefn gwynion i gynnwys categorïau o'r cwynion, amserlen a sut y byddir yn rhaeadru gwybodaeth gydag Aelodau.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad a gofyn i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol:**

**(i) Gyflwyno papur cychwynnol byr i gyfarfod paratoi y Pwyllgor Craffu hwn ar 13 Ionawr 2015 ynglyn â phrosesau'r drefn gwynion i gynnwys categorïau ac amserlen y cwynion.**

**(ii) Cyflwyno diweddariad ar y rhaglen waith o'r meysydd gwella a adnabuwyd gan AGGCC erbyn mis Mawrth 2015.**

## 5. ARBEDION

(a) Cyflwynwyd adroddiad gan y Cynghorydd Peter Read, Cadeirydd y Gweithgor Craffu Arbedion Craffu a fu'n ystyried cynigion effeithlonrwydd gan yr holl adrannau a oes yn ceisio cyfrannu at y bwlch ariannol o £50m yng nghyllideb refeniw parhaol y Cyngor hyd at 2017/18. Nodwyd bod rhai cynigion arbedion effeithlonrwydd y bwriedir eu gweithredu o 1 Ebrill 2015 a fedrai gael effaith uniongyrchol ar bobl fregus.

(b) Atgoffodd yr Aelod Cabinet Gofal o'r hinsawdd ariannol sydd ohoni a bod yn rhaid sylweddoli'r angen i ystyried gwneud arbedion sylweddol ar draws wasanaethau'r Cyngor ac nad oedd dewis gan y Gwasanaeth ond i gynnig arbedion i'r darpariaethau isod.

**(i) Arbediad Addasu Cytundebau Darparwyr**

Esboniodd yr Uwch Reolwr Busnes bod cynnig wedi ei gyflwyno i beidio â chodi ffioedd yn y maes gofal cartref, llety a chefnogaeth am y tair blynedd nesaf a olygai arbediad effeithlonrwydd o £942k.

Yn dilyn gwaith pellach ar y ffigurau, y ddeddfwriaeth berthnasol ac ystyriaeth o gategorïau o wasanaeth gofal a brynir gan ddarparwyr allanol gan gymharu'r ffioedd gydag awdurdodau cyfagos, cynigir arbedion o £308k ar gyfer 2015/16 a olygai peidio rhoi cynnydd ar ffioedd yn y flwyddyn ariannol nesaf gan ddisgwyl i'r darparwyr allanol fod yn gwneud arbedion effeithlonrwydd o fewn eu trefniadau eu hunain. Wrth gyrraedd y ffigwr uchod, nodwyd bod tystiolaeth ar gael ar gyfer pob un o'r categorïau bod y ffioedd yn hael a theimlwyd y gellir cynnal y gwasanaeth yn gynaliadwy heb gynyddu'r ffioedd. Fodd bynnag, byddai'n rhaid edrych ar y mater ymhellach y tu hwnt i 2015/16 ac y byddai'n ofynnol cydweithio gyda'r farchnad allanol yn ehangach cyn cynnig argymhellion ac eithrio dau faes sef Taliadau Uniongyrchol (lle mae taliad fesul awr yn sylweddol uwch nag awdurdodau eraill), a Gofal Ysbaid.

Yn ystod y drafodaeth, ystyriwyd y materion canlynol:

(a) Sicrhawyd bod trafodaethau wedi digwydd gyda'r trydydd sector drwy'r Fforwm Darparwyr a Chonsortiwm Anableddau Dysgu
(b) Pryder y byddai gormod o bwysau ar y farchnad allanol a'u bod yn mynd allan o fusnes a olygai neb wedyn i ddarparu'r gwasanaeth.
(c) Mewn ymateb i bryder ynglŷn ag ymrwymiad y darparwyr bod y gwasanaeth yn parhau'n gyson i'r cleiant oherwydd nad oedd cynnydd yn y ffioedd, nododd yr Uwch Reolwr Busnes y disgwylir i'r gwasanaeth fod o'r un safon ond bod teimlad cyffredinol wedi ei nodi gan y darparwyr y byddai'n rhaid ymgymryd â mwy o waith a thrafodaethau ar gyfer unrhyw arbedion tu hwnt i 2015/16.
(d) Pryder y gall gwmnïau preifat wrthod darparu pecynnau ar gyfer unigolion oherwydd y byddai'n rhy ddrud iddynt eu darparu ac o ganlyniad y byddai'r Cyngor yn gorfod eu darparu.
(e) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â mesurau monitro, sicrhawyd y byddir yn gwneud hyn drwy fonitro contractau, trefn cwynion, cyfweliadau gyda'r darparwyr ynghyd â fforymau, a'r AGGCC er sicrhau diogelwch y defnyddwyr.
(f) Bod trafferthion i ddarparu gwasanaeth yn y rhannau mwyaf gwledig o'r Sir ac oni ddylid ystyried cadw'r gwasanaeth o fewn y Cyngor fel bo modd monitro'n fewnol yn hytrach nag allanoli'r gwasanaeth a'r peryg i gwmnïau chwalu pe byddir yn rhewi'r ffioedd.

**Penderfynwyd: Cymeradwyo:**

**(i) adolygiad o'r ffigwr gwreiddiol o £942K fel arbediad effeithlonrwydd a'i ail-osod ar £373k i'w weithredu dros y tair blynedd nesaf fel a ganlyn: :**

| **2015/16** | **2016/17** | **2017/18** |
|---|---|---|
| **£308k** | **£37k** | **£28k** |

**(ii) i ail-ystyried yr holl ffioedd yn flynyddol, gan ystyried y cyd-destun perthnasol a statws y farchnad ar y pryd.**
**(iii) Bod yr arbedion effeithlonrwydd yn cydymffurfio'n llawn â gofynion cyfreithiol angenrheidiol.**

**(ii) Arbedion Gwasanaethau Trais yn y Cartref De Gwynedd a Chymorth i Ferched Bangor**

Cywirwyd mai Gwasanaethau Trais yn y Cartref De Gwynedd yn cynnwys gwasanaeth i ddynion hefyd oedd dan sylw ac nid Cymorth i Ferched De Gwynedd fel y nodwyd yn yr adroddiad.

(a) Adroddodd y Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd bod y gwasanaeth wedi bod yn rhoi cyfraniad drwy gytundeb i Wasanaethau Trais yn y cartref De Gwynedd a Chymorth i Ferched Bangor i ariannu swyddi gweithwyr plant yn rhan amser. Esboniwyd bod gofyn i'r Gwasanaeth gyflawni targed arbedion effeithlonrwydd o £2.4m erbyn 2017 o gyllideb o £14m cyn cyrraedd y drafodaeth toriadau. O'r nifer o gytundebau sydd gan y Gwasanaeth hwn yw'r unig gytundeb sydd ddim yn diwallu gofynion statudol. Ystyriwyd effaith torri'r gwasanaeth ar blant a phobl ifanc a dod i benderfyniad bod yr effaith risg yn is na gorfod diddymu swydd a hanner o weithwyr cymdeithasol o'r Adran.

(b) Ategodd yr Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc a Hamdden yr uchod gan bwysleisio bod Gwynedd yn un o'r ychydig awdurdodau lleol sydd yn rhoi arian craidd i fudiadau.

(c) Rhoddwyd cyfle i Reolydd Gorwel, Gwasanaethau Trais yn y Cartref De Gwynedd, ymateb drwy nodi pryder bod y gwasanaeth yn derbyn toriadau o ffynonellau eraill sy'n cyfateb i £82k, bron i chwarter y gyllideb. Hefyd rhaid ystyried bod y gwasanaeth yn ymdrin â phobl fwyaf bregus yn y cymunedau gyda nifer y bobl sy'n datgelu bod trais yn digwydd yn cynyddu. Mynegwyd pryder pellach o bwy fyddai'n ymdrin â'r nifer o blant sydd ar y gofrestr sy'n derbyn gwasanaeth un i un.

(d) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, ymatebwyd i'r ymholiadau gan aelodau unigol fel a ganlyn:

- Pe cyfyd achos o drais yn y cartref tu allan i oriau swyddfa / penwythnosau, byddai'r Heddlu yn cysylltu â Thîm Nos y Gwasanaethau Cymdeithasol yn unol â'r gofynion statudol fel y gwneir yn ystod oriau gwaith arferol. Cyfrifoldeb y Cyngor fel awdurdod arweiniol ar y cyd gyda'r Heddlu fyddai ymchwilio i achosion amddiffyn plant.
- Pe byddai teulu angen lloches byddai Gwasanaeth Trais yn y Cartref ar gael pedair awr ar hugain fel mynediad uniongyrchol i deuluoedd
- Pe byddir yn penderfynu cytuno i'r toriad ni ellir parhau gyda swydd Swyddog Plant ychwanegol yn Nolgellau
- Er nad yw gwaith y Gwasanaeth Trais yn y Cartref yn statudol ymhelaethwyd bod y gwasanaeth yn darparu cefnogaeth i blant a theuluoedd cyn iddynt gael eu cyfeirio yn achosion statudol. Ymdrinnir â gwaith i arbed tynnu'r Gwasanaethau Cymdeithasol i mewn ac yn arbed rhoi plant mewn gofal.
- Os yw yn ddiogel i deulu aros o fewn eu cynefin fe wneir hynny ond bod rhai teuluoedd yn cael eu lleoli tu allan i Wynedd hefyd. Lleol yw'r mwyafrif sydd yn cael eu cartrefu.
- Golygai effaith y toriad i'r Gwasanaeth Trais yn y Cartref orfod gwaredu mwy nag un swydd i weithio gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned ar draws Wynedd.

(dd) Mynegwyd pryderon gan aelodau'r pwyllgor am y nifer o ymosodiadau ac achosion y mae'r gwasanaethau yn delio â hwynt a'r perygl o golli buddsoddiad i iechyd a dyfodol plant a phobl ifainc

- Bod ffigwr anferthol o ymosodiadau yn y cartref a bod y gofal a geir gan Wasanaeth Trais yn y Cartref yn amhrisiadwy a bod ystyried diddymu'r swm iddynt yn anfoddhaol o ystyried yr effaith a wneir y Gwasanaeth hwn ar fywydau plant a phobl ifanc
- Bod y buddsoddiad ar gyfer iechyd a dyfodol plant a phobl ifanc
- Bod angen mwy o wybodaeth ynglyn â manylion ariannol Gwasanaeth Trais yn y Cartref gan gynnwys faint o bobl sydd wedi derbyn gwasanaeth ganddynt ynghyd â'r lleoliadau.

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc a Hamdden gyflwyno sylwadau isod y pwyllgor i'r Cabinet er sicrhau bod y Cabinet yn gwbl eglur am effaith unrhyw benderfyniad a wneir ganddo:**

**i) Mae'r Gwasanaeth yn rhan bwysig o wead gwasanaethau i nifer sylweddol o blant bregus yn y sir ac y dylai'r niferoedd hynny fod yn hysbys cyn i'r Cabinet wneud ei benderfyniad**
**ii) Mae elfen arbedol gref i'r gwaith sydd yn arbed gwaith a chostau uwch i'r gwasanaethau statudol y mae'n rhaid i'r Cyngor ei ddarparu**

**iii) Dylid cael gwybodaeth ariannol am effaith ehangach yr arbediad hwn ar gyllidebau'r cyrff dan sylw, yn cynnwys eu gallu i ddenu grantiau pellach cyn gwneud unrhyw benderfyniad**

**6. ADRODDIAD AR GYNNYDD Y PROSIECT HYRWYDDO ANSAWDD ADDYSG YN YR YSGOLION UWCHRADD ERS MEHEFIN 2014**

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet Addysg ar gynnydd y prosiect hyrwyddo ansawdd addysg yn yr ysgolion uwchradd ers Mehefin 2014 yn deillio o argymhellion yr Ymchwiliad Craffu Ansawdd Addysg yn dilyn proses o ymgynghori gyda rhanddeiliad perthnasol.

(b) Yn y drafodaeth, ystyriwyd y materion a ganlyn:

(i) Yr awgrym fod prinder athrawon Mathemateg yn ogystal â rhai llanw a bod rhai arbenigwyr yn y maes yn cynnig gwersi preifat yn lle mynd i ddiysgu. Cadarnhawyd bod problem mewn denu arbenigwyr Mathemateg i swyddi dysgu a bod hyn yn wir drwy Gymru gyfan a'i fod yn fater fydd yn cael ei godi gyda Llywodraeth Cymru. Sicrhawyd bod y Gwasanaeth Addysg yn ceisio mynd i'r afael â'r broblem drwy gydweithio gyda Phrifysgol Bangor i ganfod a oes posib ail-hyfforddi athrawon mewn pynciau eraill i ddysgu Mathemateg. Mae angen darbwyllo myfyrwyr mathemateg nad ydynt yn hyderus yn y Gymraeg bod cefnogaeth ar gael iddynt i ddatblygu'r iaith.

(ii) Rhaid sylweddoli bod prinder athrawon yn gyffredinol mewn pynciau eraill hefyd, e.e. cerdd. Mewn ymateb, nododd yr Aelod Cabinet Addysg bod arferion da yn Ysgolion Gwynedd a cheisir pwysleisio bod arbenigwyr pwnc yn rhannu eu harbenigedd ymysg ei gilydd.

(iii) Nodwyd bod angen mwy o sylw i bontio rhwng cynradd ac uwchradd er mwyn codi safonau addysg ond sicrhawyd bod nifer o brosiectau pontio llwyddiannus ar waith. Cyfeiriwyd at arfer mewn un dalgylch, lle adnabuwyd meysydd gwan ym mherfformiad y cynradd mewn rhifedd ac o ganlyniad bu cydweithio â'r sector gynradd ar feysydd penodol.

(iv) Mewn ymateb i bryder am ddirywiad ymddangosiadol mewn canlyniadau TGAU, nododd Uwch Ymgynghorydd Her GwE bod perfformiad hanesyddol Gwynedd fel sir wedi bod yn gadarn ond bod pegynnu yn digwydd ym mherfforiad ysgolion unigol. Cyfeiriwyd hefyd at y pendilio sydd yn digwydd gydag ysgolion ble mae'r cohort yn fychan. Mae'r maes wedi cael sylw eleni a gwelliannau amlwg mewn nifer o'r ysgolion dargedwyd ar gyfer cynhaliaeth. Nodwyd hefyd bod dangosyddion performmiad a meicnodau diwygiedig wedi'u cyflwyno dros y blynyddoedd diwethaf gyda ffocws penodol ar y prif ddangosydd (TL2+) ynghyd â disgwyliadau uwch gan y corff rheoleiddio, ESTYN.

(v) O ran arweinyddiaeth, nodwyd bod angen rhoi sylw i'r nifer swyddi penaethiaid gwag a datblygu modelau gwahanol mewn sefyllfaoedd lle methir penodi Penaethiaid megis penodi Arweinydd Strategol dros Ddalgylch i gefnogi'r sector cynradd hefyd.

(vi) O ran agweddau s'n cyfrannu at arweinyddiaeth dda esboniodd y Rheolwr Prosiect ei bod wedi cyflwyno adroddiad i Benaethiaid ac yn cyflwyno dogfen gynhwysfawr yn manylu ar yr agweddau o arferion da sydd yn bosibl i'w rhoi ar waith mewn ysgolion gyda rhestr gyffelyb ar gyfer llywodraethwyr a fyddai o fudd ar gyfer bod yn gyfaill beirniadol i'w hysgolion.

(vii) Cymhwyster CPCP – nodwyd bod 2 uwch reolwyr o'r sector uwchradd a 7 / 8 o'r sector cynradd wedi eu derbyn i ddilyn y cymhwyster CPCP eleni. Nodwyd bod cynllun gan y Cyngor i ddatblygu arweinyddiaeth ar bob lefel a bod yn rhaid adnabod potensial unigolion yn fuan

(viii) Mynegwyd peth bryder am yr holl ofynion sydd ar benaethiaid sy'n golygu eu bod yn gweithio oriau sylweddol tu hwnt i'r oriau dysgu. Teimlwyd nad oedd yn gymhelliant i athrawon ymgeisio am swyddi Penaethiaid / Dirprwyon oherwydd y pwysau gwaith anferthol sydd ar Benaethiaid.
(ix) O safbwynt perfformiad TL2+ bod safle Gwynedd yn 5ed uchaf yn genedlaethol a bod y Sgôr Bwyntiau Wedi'i Gapio yr uchaf un
(x) Yng nghyd-destun yr elfennau o'r prosiect sydd wedi eu lliwio'n felyn a choch, hyderir y bydd nifer ohonynt yn datblygu i'r lliw gwyrdd ond rhaid cofio bod y cynllun gwreiddiol wedi'i ddiwygio ac na fydd rhai elfennau yn cael eu gweithredu yn yr un modd.
(xi) Nodwyd bod ESTYN fel rhan o arolygiad yr Awdurdod wedi gwneud cais i gyflwyno adroddiad ar ôl eu hymweliad ôl-arolwg diweddar.

**Penderfynwyd: (a) Cymeradwyo'r cynnydd a wneir hyd yma ond bod angen parhau i fonitro i'r dyfodol.**

**(b) Derbyn a chroesawu cais penodol ESTYN i gyflwyno adroddiad i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.**

## 7. ADRODDIAD AR WEITHREDU Y GWASANAETH EFFEITHIOLRWYDD A GWELLA YSGOLION (GwE) GYDAG YSGOLION GWYNEDD

Cyflwynwyd adroddiad gan Uwch Ymgynghorydd Her Hwb Gwynedd/Môn o Wasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion (GwE) ar waith GwE gydag ysgolion Gwynedd.

(a) Tywyswyd yr Aelodau drwy gynnwys yr adroddiad gan nodi gwybodaeth gefndirol ar sefydliad GwE, ymrwymiad Gwynedd i'r gwasanaeth, cyllideb gomisiynu a dargedir ar gyfer ysgolion penodol, strwythur y Tîm, data perfformiad ar draws y Cyfnodau Allweddol, crynodeb o ganfyddiadau ESTYN o arolygiadau yn ystod cyfnod gweithrediad GwE, gwybodaeth data o safbwynt categoreiddio ysgolion yn y sector cynradd a'r uwchradd, ymateb gan rhanddeiliad ynglyn ag ansawdd gwaith GwE.

(b) Yn ystod y drafodaeth, ystyriwyd y materion canlynol:

(i) Mewn ymateb i ymholiad, esboniwyd bod y meini prawf ar gyfer categoreiddio gwyrdd wedi ei dynhau sy'n ei wneud yn anoddach i osod ysgolion yn y categori hwn ac yn ymwneud yn benodol â pherfformiad grwpiau o ddysgwyr megis dysgwyr cinio am ddim, bwlch rhwng bechgyn a merched, plant gydag anghenion dysgu ychwanegol. Eglurwyd bod cham i'r broses o bennu categori ysgol, sef:

- Llywodraeth Cymru yn gosod pob ysgol mewn Categori data (1-4)
- Canfyddiadau GwE yn lleol drwy graffu ac arsylwi gwersi, trafodaeth gydag arweinwyr sy'n arwain at farn ar ansawdd arweinyddiaeth (A-D)
- Pennu categori lliw i ysgolion o ran cynnig cefnogaeth a chynhaliaeth

Canlyniad Cam 1 o'r broses oedd wedi gosod nifer fwy o ysgolion Gwynedd yn Chwartel 4 ac and oedd casgliad cytbwys am y safonau nes cwblhau'r holl gamau'r broses

(ii) Cytunwyd bod dangosydd cinio am ddim yn un amrwd iawn o berfformiad ysgolion ond yn un sydd yn gyrru holl drafodaethau gyda nifer o randdeiliad.
(ii) Ychwanegodd yr Aelod Cabinet Addysg bod trefn wedi ei sefydlu yn ddiweddar o

gynnal trafodaethau o fewn y Grŵp Ansawdd lle y byddir yn canolbwyntio ar ysgolion penodol a thrafod unrhyw gamau all yr awdurdod gynnig o ran cefnogaeth ac i herio'r ysgolion.

(iv) Ymfalchïwyd ym mhenodiad arbenigwyr sy'n cydweithio hefo clwstwr o ysgolion a bod hyn i'w longyfarch a bod gan rhanddeiliad agwedd lawer iawn mwy positif tuag at weithrediad GwE ac yn ei weld fel adnodd i gynorthwyo ysgolion.

(v) Gwerthfawrogwyd gweld yr enghraifft o beth yw natur y gynhaliaeth ac effaith y gefnogaeth gydag ysgolion categori coch ac y byddai hyn yn ddefnyddiol i rannu hefo llywodraethwyr

(vi) Cydnabuwyd bod tryloywder yn y berthynas rhwng GwE, ysgolion a llywodraethwyr yn gwbl hanfodol ac fe ddylai llywodraethwyr gael mynediad i adroddiadau monitro. Gwelir yn yr arferion gorau bod cynrychiolaeth o'r llywodraethwyr yn ymuno ac yn rhan greiddiol o'r broses monitro a thrwy hyn yn meddu dealltwriaeth well o'r broses craffu. Teimlwyd hefyd bod gan Aelodau etholedig rôl gwbl greiddiol i newid meddylfryd o fewn rhai cyrff llywodraethol ac yn enwedig mewn ambell i ysgol sydd wedi ei dynodi yn y categori coch.

(vii) Mewn ymateb i bryder bod rhai cysylltiadau mentora'n golygu gormod o deithio, eglurwyd bod cydweithio yn bwysig a bod disgwyliad drwy'r gyfundrefn bresennol i bob Pennaeth gymryd mwy o gyfrifoldeb lletach am addysg plant. Gwelir y gyfundrefn yn effeithiol mewn niferoedd o ardaloedd lle mae ysgolion yn helpu ei gilydd.

(viii) Mewn ymateb i ymholiad ynglyn â llwyddiant / aflwyddiant ysgolion i gyrraedd targedau, eglurwyd bod nifer o ysgolion gyda cohort bychan iawn yn gosod targed dyheadol (aspirational) yn hytrach na thargedau realistig a chyraeddadwy. Nodwyd ymhellach bod bwriad i gyflwyno rhaglen waith er mwyn rhoi sylw pellach i asesu, gosod targedau, tracio ac ymyrraeth. Cydnabuwyd bod rhai ysgolion yn gosod targedau rhy heriol ac nad ydy hynny yn hwyluso'r gwaith o adnabod a mynd i'r afael â thangyflawni yn effeithiol.

**Penderfynwyd: Derbyn yr adroddiad gan nodi'r pwyslais i gryfhau'r ddealltwriaeth o gydweithio.**

**8. ADOLYGIAD STRATEGOL ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL**

Nododd yr Aelod Cabinet Addysg bod bwriad i gyflwyno cynigion o adolygiad o'r maes uchod i'r Cabinet ym mis Chwefror / Mawrth 2015. Gofynnwyd i'r Pwyllgor sefydlu Grwp Tasg i graffu ar y Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ystod y cyfnod ymgynghorol yn ystod Ionawr 2015.

**Penderfynwyd: Ethol yr aelodau canlynol i wasanaethu ar y Grwp Tasg:**

**Y Cynghorydd Elin Walker Jones**
**Y Cynghorydd Gweno Glyn**
**Y Cynghorydd Selwyn Griffiths**
**Parchedig Robert Townsend**

**CADEIRYDD.**

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | Pwyllgor Craffu Gwasanaethau |
| **Dyddiad** | 12 Chwefror 2015 |
| **Teitl** | Adolygiad o drefniadau y Gwasanaeth Galluogi |
| **Aelod Cabinet** | Cynghorydd Gareth W Roberts |
| **Awdur** | Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol<br>Glenda Lloyd Evans, Rheolwr Gwasanaeth Oedolion |

**1. Pwrpas yr adroddiad**

1.1 Ymateb i gais gan y Pwyllgor Craffu i amlinellu "*beth yw'r weledigaeth o safbwynt galluogi ar gyfer y gwasanaeth ar hyn o bryd a dros y misoedd nesaf"*.

1.2 Fel un agwedd oedd angen sylw wrth geisio edrych ar y gorwariant, mae'r gwasnaeth wedi bod yn adolygu y trefniadau sydd ar waith gyda'r gwasanaeth galluogi.

Mae hwn felly yn gyfle i ddiweddaru'r aelodau o'r prif ganfyddiadau sydd yn deillio o'r gwaith hwn ynghyd a beth yw'r dysgu cenedlaethol efo'r maes yma.

**2. Adolygiad o'r Gwasnaeth Galluogi**

2.1 Er mwyn gosod cydestun i'r gwasanaeth, yn syml mae'r gwasanaeth galluogi yn ffordd o geisio ymateb yn ddwys am gyfnod byr. Mae wedi seilio ar egwyddor o hybu annibyniaeth a pheidio chreu dibyniaeth. Mae yn weithredol yng Ngwynedd ers Ionawr 2010. Mae yn wasanaeth sydd ar gael felly am gyfnod penodol, a gall hyn amrywio o ychydig o ddyddiau hyd at gyfnod o 12 wythnos. Felly nid oes amser penodol lle mae'r gwasanaeth ar gael. Mae'n wasanaeth sydd yn cael ei ddarparu gan weithwyr gofal cartref gyda chefnogaeth arbenigol therapyddion galwedigaethol.

2.2 Rydym wedi bod yn rhedeg gwasanaethau galluogi bellach felly ers dros 4 blynedd a gwelwn lwyddiant yn erbyn y meini prawf gyda oddeutu 58% o'r unigolion sydd yn derbyn galluogi yn cadw ffwrdd o'r gwasanaeth am o leiaf flwyddyn.

Yn ogystal, mae yna yn agos i £1miliwn wedi ei gyfrifol fel arbediad ac wedi ei drosglwyddo allan o'r gyllideb yn dilyn cynllun arbedion. Roedd y ffigwr hyn yn seiledig ar ddadl o beth fyddai wedi digwydd i'r unigolyn petai yr ymyrraeth galluogi heb ddigwydd.

2.3 Y ddadl yw bod y gefnogaeth tymor byr hyn yn osgoi iddynt barhau yn ddibynnol ar y gwasanaeth am y tymor hir. Yn amlwg, nid oes bosib profi yn wyddonol ond yn hytrach gweithio allan beth fyddai wedi digwydd i'r unigolion hynny petaent heb dderbyn galluogi. Mater o farn wrth gwrs yw hyn a nid oes bosib bod yn bendant efo'r fath gyfrifiad.

2.4 Ymddengys o'r mesuryddion yr ydym yn eu defnyddio ein bod yn llwyddo gyda'n cynlluniau galluogi. Rydym hefyd wedi llwyddo i gael arbedion sylweddol allan o'r gwasanaeth pobl hyn oherwydd y llwyddiant hwn.

2.5 Bydd yr aelodau yn ymwybodol bod na sefyllfa o orwariant wedi digwydd yn y gwasanaethau pobl hyn yn ddiweddar ac mae na gwestiwn efallai i'w ateb o ran tynnu allan £1miliwn oherwydd galluogi a'r gorwariant hwn. Roedd angen felly ail ymweld a'r trefniadau o gwmpas y gwasanaeth yma yn sil y sefyllfa ariannol.

Yn ogystal, mae na dystiolaeth cenedlaethol bellach gan John Bolton, sef arbenigwr yn y maes gofal pobl hyn, yn gofyn i ni fel cynghorau dros y D.U. i edrych eto ar ein trefniadau gyda'r gwasanaeth galluogi a sicrhau ein hunain ein bod yn defnyddio'n adnoddau yn gywir ac yn effeithiol. O'r gwaith ymchwil mae John Bolton wedi ei wneud, ymddenygs bod nifer fawr o gynghorau yn Lloegr wedi darganfod bod yna gorddefnydd o ymyrraeth ddrud galluogi gydag unigolion nad oedd ei angen ac am gyfnodau hirach nag oedd ei angen.

Dadl John Bolton yw bod awdurdodau sydd wedi defnyddio model "intake" ac wedi rhoi gwasanaeth i unigolion fyddai mae'n debyg wedi bod yn gallu mynd adra heb unrhyw gefnogaeth ac ymyrraeth o gwbl, ac wedi bod yn iawn yn yr hir dymor heb ddim ymyrraeth.

Dadl arall John Bolton oedd bod gwasanaethau galluogi yn cael eu darparu am gyfnod hirach na'r angen i unigolion. Mae'r gwasanaeth hwn yn un gymharol ddrud oherwydd y gefnogaeth broffesiynol dwys sydd ar gael. Mae hefyd yn wasanaeth rhad ac am ddim i unigolion. Mae'n hanfodol bwysig felly bod y gwasanaeth yn cael ei dargedu ar gyfer yr unigolion cywir ac nad yw yn cael ei ddarparu yn hirach na'r angen i'r unigolion hyn.

2.6 Cynhaliwyd adolygiad rheolaethol gan y Gwasanaeth Pobl hyn ac, ymddengys fod rhai agweddau yn gweithio'n dda ond y dylai rhai agweddau cael eu newid ar gyfer y dyfodol.

Dyma'r prif agweddau sydd angen eu newid / gwersi i'w dysgu:-

2.6.1 Ymddengys bod enghreifftiau o unigolion yn derbyn gwasanaeth galluogi fyddai ddim angen y math hyn o ymyrraeth ddwys. Ymddengys nad oes digon o dargedu unigolion addas yn digwydd a bod pawb sydd yn gadael

ysbyty neu yn dod atom fel gwasnaeth yn cael ei roi syth mewn i dderbyn y gwasanaeth hwn. Mae angen felly **defnyddio adnodd galluogi yn y ffordd fwyaf effeithiol bosib** – enghraifft o gais am wasanaeth galluogi i roi seibiant i ofalydd – hwn ddim yn ddefnydd addas o galluogi.

2.6.2 Mae'r gwasanaeth galluogi yn wasanaeth gymharol ddrud i'w ddarparu ac er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd orau o adnoddau unwaith eto mae angen sicrhau bod trefniadau monitro cadarn i sicrhau effeithlonrwydd. Mae yna dystiolaeth nad yw'r monitro yn ddigonol ymhob ran o'r sir a gwelwyd bod rhai unigolion yn derbyn y gwasanaeth yn hirach nag oedd ei angen.

Yn ddifyr, mae na "urban myth" wedi bodoli ers y cychwyn bron, bod galluogi yn wasnaeth oedd "am ddim" am hyd at 6 wythnos i bawb. Nid yw hyn yn wir, fel sydd wedi nodi isod, mae'r gwasanaeth ar gael am gyfnod amhenodol i fyny at 12 wythnos (serch na fyddai llawer yn cyrraedd 12 wythnos) ac mae cyfnod cyfartaledd oedd y 6 wythnos. Mae'n debyg ei fod wedi ei gyflwyno yn rhy agos i'r cyfnod ble bu i'r hen gyfundrefn 6 wythnos am ddim ddod i ben a bod staff a thrigolion wedi cymysgu.

2.6.3 Nid yw'n ymddangos bod ein mesurau perfformiad wedi adnabod y pethau cywir i'w mesur – rydym wedi mesur llwyddiant yn seiliedig ar y % o ddefnyddwyr sydd yn dod nol atom o fewn blwyddyn – ond efallai nad hwn yw'r mesur cywir o lwyddiant gyda'r gwasanaeth i'r dyfodol. Dylai'r mesur fod yn edrych ar gyflawni canlyniadau yr ydym wedi cytuno gyda'r defnyddiwr ar gychwyn yr ymyrraeth yn hytrach na y gofyn i'r dyfodol. Mae'n debyg i'r gwasanaeth roi eu ffocws i gyd ar brofi arbedion effeithlonrwydd yn unig.

**3. Camau sydd ar waith**

3.1 Mae'r gwersi uchod eisoes wedi eu rhannu o fewn yr adran ac mae rheolwyr eisoes wedi rhoi camau ar waith o ran gwella trefniadau. Dyma'r prif faterion sydd eisoes wedi eu gweithredu:-

3.1.1 Atgoffa rheolwyr beth yw pwrpas y gwasanaeth galluogi gan sicrhau bod hwn yn cael ei readru at gweithwyr rheng flaen. Gwnaethpwyd hyn ar draws gwasanaethau pobl hyn a gwasanaethau darparu.

3.1.2 Rheolwyr unigol wedi ail ymweld a'u trefniadau monitro unigol gan geisio sicrhau nad yw pecynnau yn gor-redeg heibio cyfnod gwella unigolyn.

3.1.3 Fel efallai mae aelodau'n ymwybodol, un o brif brosiectau'r adran ar hyn o bryd yw prosiect Ffordd Gwynedd (Vanguard) ac mae hwn ar waith ar hyn o bryd. Mae'r tim yma yn edrych yn benodol ar sut maent yn defnyddio gwasnaethau galluogi gan geisio adnabod gwersi pellach. Bydd y tim yma yn edrych ar y mesuriadau perfformio gorau ar gyfer galluogi.

3.1.4 Bydd Rheolwr Gwasanaeth Oedolion yn derbyn gwybodaeth meintiol yn gyson i fonitro'r niferoedd yn y gwasanaeth er mwyn ceisio cael sicrwydd lefel uchel bod y gwersi yn cael eu gwireddu yn syth.

**4. Cloi**

4.1 Mae'r gwasanaeth galluogi yn un pwysig i ni ar gyfer cyflawni ein haddewidion a chyrraedd ein gweledigaeth. Serch hyn, nid yw'n addas i bawb ac mae'n fuddsoddiad sylweddol i ni ei wneud fel cyngor gan ei fod yn wasanaeth rhad ac am ddim i ddefnyddwyr, a hefyd yn wasanaeth sydd yn ymyrraeth ddwys gan bobl broffesiynol. Felly rhaid i ni gloriannu y buddsoddiad yn erbyn y canlyniadau i drigolion Gwynedd. Ymddengys, er y gwaith da gan staff rheng flaen, ein bod angen dysgu rhai gwersi i'r dyfodo a sicrhau bod y defnydd gorau o adnoddau yn digwydd. Mae ymyrraeth byr dwys wedi ei brofi yn beth positif i ni ei wneud, a hynny er budd unigolion a'r Cyngor. Mae'r gwersi uchod yn adeiladu ar y gwaith da ac yn sicrhau ein bod yn bwrw mlaen i'r dyfodol gyda threfn effeithiol a chynaliadwy.

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | Pwyllgor Craffu Gwasanaethau |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | 12 Chwefror 2015 |
| **Eitem** | ARBEDION EFFEITHLONRWYDD 2015/16 – 2016/17 (GWASANAETHAU TRAIS YN Y CARTREF DE GWYNEDD A CHYMORTH I FERCHED BANGOR) |
| **Aelod Cabinet** | Cynghorydd Mair Rowlands |

**1. Cefndir**

Fel rhan o raglen arbedion corfforaethol, mae Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn cynnig eu bod yn dad-gomisiynu cytundebau gwasanaeth Cymorth i Ferched a Gwasanaeth Trais yn y Cartref De Gwynedd.

Mae Cytundeb Gwasanaeth Cymorth i Ferched a Gwasanaeth Trais yn y Cartref De Gwynedd werth £22,070 ac £33,810 (yn ôl eu trefn).

Bu i gynigion yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd gael eu trafod ym Mhwyllgor Craffu Corfforaethol y Cyngor ar y 13 Tachwedd 2014 a'u cyfeirio at Bwyllgor Craffu Gwasanaethau a gynhaliwyd 11 Rhagfyr 2014 gyda'r disgwyliad y byddai penderfyniad yn cael ei wneud yng nghyfarfod y Cabinet ar y 16 Rhagfyr 2014.

Yn eu cyfarfod ar y 16 Rhagfyr 2014 bu i'r Cabinet argymhell bod angen rhagor o wybodaeth er mwyn gwneud yn gwbl eglur beth fyddai effaith y penderfyniad ar y mudiadau ac i'r sawl sydd wedi bod yn derbyn gwasanaeth ganddynt.

Pwrpas yr adroddiad hwn yw ymateb i gais y Cabinet a chrynhoi safbwynt yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd.

**2. Gwybodaeth ychwanegol gan y Mudiadau**

Ymhellach i argymhelliad y Cabinet, bu i'r ddau fudiad gael cais ar y 22 Rhagfyr 2014 am ymateb i gwestiynau penodol er mwyn canfod effaith yr arbediad arfaethedig.

Gofynnwyd yr un 9 cwestiwn i'r ddau fudiad gyda chais am ymateb yng nghyd-destun yr hyn mae'r Cyngor yn cyfrannu ato yn y cytundeb.

Bu i'r Adran dderbyn ymateb Cymorth i Ferched ar y 27 Ionawr a Gwasanaeth Trais yn y Cartref De Gwynedd ar y 31 Ionawr 2015. Gweler Atodiadau 1 a 2 am ymateb uniongyrchol gan y naill fudiad.

Roedd rhaid gwirio manylion ymateb Gwasanaeth Trais yn y Cartref De Gwynedd i'r cais am y nifer o blant a gefnogir oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.
Nid oedd yr Adran Plant yn credu fod y niferoedd cymaint â'r ffigwr sy'n ymddangos yn adroddiad y mudiad. Gofynnwyd am restr p enwau'r' plant y bu i'r Gweithiwr Plant fod yn ymwneud a hwy oedd ar Gofrestr Amddiffyn Plant. Cadarnhaodd y mudiad fod y ffigyrau yn erbyn yr adran hon anghywir a'u bod yn wreiddiol yn cynnwys rhai oedd yn cyrraedd trothwy risg y mudiad ei hun yn ogystal â phlant ar y

gofrestr amddiffyn plant.  Y ffigwr plant ar gyfer 2014 yw 20 o blant ac nid yw'r ffigyrau ar gyfer 2013 a 2012 yn gywir.  Mae'r 20 plentyn yn 2014 yma wedi cael cefnogaeth yn y gymuned gan wahanol swyddogion o'r mudiad.  Nid oedd cadarnhad penodol wedi ei gyflwyno yn dilyn cais ychwanegol am wybodaeth mai'r Gweithiwr Plant sydd wedi gweithio hefo'r 20 plentyn yma.

## 3. Effaith yr arbediad ar drigolion Gwynedd a defnyddwyr y gwasanaeth

Ar sail ymateb y ddau fudiad i'r cwestiynau a gyfeirir ato yn rhan 2 o'r adroddiad hwn gellir crynhoi y byddai'r arbediad yn cael yr effaith canlynol:

- Colli darpariaeth Gweithiwr Cefnogol arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc yn Ne Gwynedd a 0.5 Gweithiwr Cefnogol yn ardal Arfon
- Dim darpariaeth plant a phobl ifanc a gyfeirir at y ddau fudiad am wasanaeth
- Colli darpariaeth rhaglenni codi ymwybyddiaeth ychwanegol mewn ysgolion trwy raglenni ataliol (e.e. DEWIS)
- Gan gymryd na fyddai plant a gyfeirir yn derbyn cefnogaeth ychwanegol, mae'r mudiadau yn amcangyfrif y sgil effeithiau ychwanegol ar :
  - les emosiynol y plant a phobl ifanc
  - eu gallu i ddatblygu perthnasau iach
  - allu plant a phobl ifanc i ymdopi a newidiadau bywyd (life transitions)
  - ymddygiad yn yr ysgol
  - ymddygiadau yn gyffredinol

(Gweler ymatebion llawn y ddau fudiad  i gwestiwn 6 yn atodiadau 1 a 2).

## 4. Monitro'r Gwasanaeth

Bu i Uned Contractio Gwasanaeth Busnes Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant gynnal ymweliadau monitro contract ar y 5 Tachwedd 2012 i Gymorth i Ferched a 27 Tachwedd 2012 i Wasanaethau Trais yn y Cartref De Gwynedd.

Bu i Swyddog Contractau ymweld â Thrais yn y Cartref De Gwynedd ar y 16 Fehefin 2014 yn ogystal â chael cyfle i arsylwi sesiwn STAR (Safety Trust and Respect) ar y 23 Medi 2014.

Bu i'r Swyddog Contractau gael cyfarfod hefo cynrychiolwyr Cymorth i Ferched ar 24 Tachwedd 2014 a bu i'r mudiad ddarparu gwybodaeth i gefnogi'r hyn maent wedi ei ddarparu yn y flwyddyn gyfredol yn dilyn y cyfarfod.

Mae ymweliadau monitro cytundeb yn rhoi cyfle i gynrychiolwyr yr Adran fonitro cynnydd yn erbyn disgwyliadau a gofynion penawdau'r cytundeb gwasanaeth (e.e. Amcanion, Targedau, Disgwyliadau)

Ni fu i'r Uned Contractau osod unrhyw ofynion gweithredu sylweddol ar y ddau fudiad o yma o ran safon yr hyn oedd yn cael ei ddarparu.

Yn ogystal â'r uchod mae ymarferion 'monitro desg' wedi rhoi gofyn i'r ddau fudiad bod yn darparu adroddiadau pob 6 mis i grynhoi  cynnwys yr hyn a ofynnir amdano yn y cytundeb e.e. gweithgareddau, ystadegau, adroddiadau cyllid.

Mae cyfarfodydd adolygu cytundeb blynyddol wedi cymryd lle yn ystod cyfnod y cytundebau presennol (sydd wedi bod yn weithredol ers 4 mlynedd) sydd wedi rhoi cyfle i 'r Adran a'r mudiad gadarnhau bod cynnwys y cytundebau yn gyfredol ac yn gywir. Bu gyfarfodydd adolygu cytundeb ar gyfer 2014-15 gymryd lle ar y 26 Mawrth 2014 ar gyfer Cymorth i Ferched a 3 Mehefin 2014 ar gyfer Gwasanaeth Trais yn y Cartref De Gwynedd a hynny. Yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn oedd Pennaeth yr Adran Plant, Swyddog Contractau a chynrychiolwyr y mudiadau. Yn ystod y cyfarfodydd hynny trafodwyd hefo'r ddau fudiad sefyllfa ariannol cyngor a'r gyfundrefn arbed effeithlonrwydd a'r bwriad i ystyried y cytundebau fel arbediad effeithlonrwydd

## 5. Asesiad y Gwasanaeth o'r Gwasanaeth dros gyfnod y Cytundebau Gwasanaeth

Bu i'r Gwasanaeth gwblhau Asesiad Effaith Cydraddoldeb i'r perwyl hwn ar gyfer Pwyllgor Craffu Gwasanaethau (gweler Atodiad 3).

Mae'r Adran yn cydnabod bod nifer o blant a phobl ifanc wedi derbyn gwasanaeth, boed ar sail un i un neu mewn sefyllfa grŵp. Mae adroddiadau unigol y ddau fudiad (atodiadau 1 a 2) yn adlewyrchu ystod y gwasanaeth a ddarperir a'r canlyniadau.

Fodd bynnag, wrth gydnabod bod defnydd eang o'r gwasanaeth a ddarperir, nid oes tystiolaeth wedi dod i law i argyhoeddi'r Adran y byddai effaith gwirioneddol a sylweddol ar drigolion ac i'r sawl sydd yn derbyn gwasanaeth o ganlyniad i'r arbediad.

## 6. Effaith ehangach ar sefyllfa ariannol y cynigion

O ymatebion llawn y ddau fudiad (atodiadau 1 a 2), gwelir y byddai'r arbediad yn cynrychioli
15% o incwm blynyddol Cymorth i Ferched
6% o incwm blynyddol Gwasaneth Trais yn y Cartref De Gwynedd

## 7. Casgliadau

Mae'n debygol bod y farn bod y cynnig hwn yn cael ei weld fel torri gwasanaeth. Rhaid pwysleisio fodd bynnag na fyddai cyfrifoldebau a dyletswyddau statudol yr Adran tuag at blant a phobl ifanc sydd yn byw mewn sefyllfa trais yn y cartref yn newid. Mae'r cyfrifoldeb statudol i asesu anghenion, ymchwilio materion diogelu a darparu gwasanaethau i'r teulu yn aros gyda'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd. Nid yw diddymu'r gwasanaeth yn newid dim ar gyfrifoldebau partneriaid i adnabod a chyfeirio pryderon amddiffyn plant.

**Atodiad 1**

## Cymorth i Ferched

### 1. Beth mae cyfraniad y Cyngor yn mund tuag ato?

Mae Cyngor Gwynedd yn cyfrannu £20,040 tuag at Wasanaeth Cefnogi Teuluoedd Cymorth i ferched Bangor a'r cylch. Defnyddir y funding i gyflogi Gweithiwr Cefnogol Arbenigol Plant (tâl, cyflog ac 'on-costs').

### 2. Beth yw trosiant y mudiad? (er mwyn adnabod pa ganran o'r incwm sydd dan sylw)

Yn 2004-15 bu i'r mudiad dderbyn cyfanswm o £144,483 trwy grant Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru (£81,659 ar gyfer gwasanaeth lloches a £62,824 tuag at wasanaeth cefnogol y mudiad). O fewn hyn roedd lwfans o 3.5 awr yr wythnos ar gyfer cefnogi plant o fewn y lloches. Mae cyfraniad y Cytundeb Gwasanaeth yn cynrychioli 12% o arian blynyddol y mudiad. Mae'r mudiad yn wynebu toriad o 6% o 2015/16 (cyfanswm o £8, 668.98 o brif grant Cefnogi Pobl). Petai'r Cytundeb Gwasanaeth yn aros fel y mae, byddai'n cynrychioli 15% o gyfanswm incwm y mudiad.

Derbyniwyd £5,000 trwy elusen Plant Mewn Angen yn y flwyddyn gyfredol, gan roi trosiant o £169,883 am y flwyddyn 2014-15.

### 3. Beth mae'r mudiad wedi ei wneud er mwyn ceisio deny mwy o arian?

Bu i'r mudiad roi ceisiadau am arian i'r canlynol: Henry Smith Charity, Tudor Trust, Lloyds Foundation a Phlant Mewn Angen. Bu pob yn un aflwyddiannus heblaw am £5,000 a roddwyd gan elusen Plant Mewn Angen. (bu i'r cais gwreiddiol ofyn am £90,000 i ariannu 2 swydd gweithiwr cefnogol plant rhan amser. Gwnaed hyn ar sail nad oedd un swydd rhan amser yn ddigonol i gyfarch y nifer uchel o gyfeiriadau a dderbynnir gan y mudiad).

Gweithredir rhestr aros ar hyn o bryd ar sail galw a'r hyn gall un swyddog ei gyflawni.

Mae'r mudiad yn bwriadu gwneud cais i elusen Comic Relief pan ddaw'r cyfle nesa.

Mae plant a phobl ifanc sydd wedi dioddef camdriniaeth o ganlyniad i drais yn y cartref yn haeddu gwasanaeth cefnogol amserol er mwyn eu gwarchod gorau phosib rhag niwed pellach.

### 4. O ble daw'r cyfeiriadau/gwaith? h.y.

- **Sawl achos sy'n cael eu cyfeirio gan yr Adran Plant at y mudiad?**
- **Sawl achos sy'n cael eu cyfeirio gan y mudiad i'r Adran Plant?**
- Oes ffynonellau eraill

Rhwng Ebrill 13 a Rhagfyr 14 bu i Gymorth i Ferched dderbyn 43 cyfeiriad am wasanaeth cefnogol. O'r rhain derbyniwyd 5 cyfeiriad o Wasanaethau Cymdeithasol, 8 trwy'r heddlu, 8 trwy Addysg a'r gweddill trwy wasanaeth cefnogi teuluoedd y trydydd sector (megis Gyda'n Gilydd a Theulu Ni) a rhieni/teuluoedd ei hunain.

Ni fi i'r mudiad gyfeirio achosion at y Gwasanaethau Cymdeithasol trwy drefniadau amddiffyn plant gan nad oedd rheswm i wneud yn y cyfnod dan sylw.

**5. Pa waith arbenigol mae'r gweithwyr a ariannir gennym yn ei wneud**

Mae'r Gweithiwr Plant dynodedig yn gweithio ar sail un i un hefo plant yn unol â'r anghenion sydd yn cael eu hadnabod trwy asesiad cychwynnol. Prif bwrpas y gwaith yw darparu cefnogaeth therapiwtig i blant a phobl ifanc sydd yn arddangos effaith niweidiol o fod wedi byw hefo camdriniaeth a thrais yn y cartref. Mae'r ymyrraeth yn ceisio helpu plant wneud synnwyr o'u teimladau a'u hamgylchedd; i ddatblygu cynlluniau diogelwch priodol ac i helpu datblygu perthnasau priodol gydag eraill.

**6. Beth ydi effaith a/neu werth a/neu ganlyniad y mewnbwn ar y sawl sydd yn derbyn y gwasanaeth?**

Mewn awdit o holl achosion lle mae gwasanaeth cefnogol wedi ei ddarparu, mae'n amlwg bob plant a phobl ifanc wedi profi canlyniadau cadarnhaol. Mewn nifer o achosion mae plant a phobl ifanc yn gallu lleisio teimladau ac emosiynau ac yn llai tebygol o arddangos ymddygiadau croes yn y cartref neu'r ysgol. Golygai hyn bod cynnydd ym mhotensial o fewn amgylchedd yr ysgol yn cynyddu trwy bresenoldeb; cyfranogiad mewn gwersi a gwelliant mewn agwedd tuag at ddysgu. Mae plant a phobl ifanc hefyd yn nodi eu bod yn gallu ymdopi'n fwy cynhyrchiol i sialensiau ac yn gwerthfawrogi'r ddealltwriaeth bod eraill yn mynd trwy'r un profiadau. Mae plant a phobl ifanc yn gwerthfawrogi o gael Gweithiwr Cefnogol i wrando ac i helpu llunio map diogelwch, ac i gysylltu pan maent yn teimlo'n bryderus neu'n ofnus.

Mae adborth gan ymarferwyr /ac asiantaethau eraill yn cadarnhau bod y gwaith yn gymorth a gwerth enfawr i fywydau a photensial plant a phobl ifanc. Rydym yn derbyn adborth bod plant yn fwy sefydlog yn yr ysgol; yn llai problemus yn y dosbarth; yn datblygu perthnasau mwy priodol a phositif a'u cyfoedion (ac oedolion o'u cwmpas) ac mewn gwell sefyllfa i ddelio hefo'u teimladau ac emosiynau sydd yn ganlyniad i'w profiad o drais yn y cartref.

Rydym eisoes wedi darparu esiamplau o adborth plant a phobl ifanc dros y misoedd diwethaf.

**7. Ba ganran o'r plant a gefnogir gan y mudiad sydd ar y gofrestr amddiffyn plant?**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae 10 allan o 48 (20%) cyfeiriad wedi bod ar y gofrestr amddiffyn plant.

**8. Beth yw grwpiau oedran y plant a gefnogir gan y mudiad?**

Mae'r gwasanaeth yn cynnig gwasanaeth i blant a phobl ifanc o 5 i 17 oed. Derbynnir cyfeiriadau ar gyfer plant ieuengach, a bydd y cyfeiriadau'n cael eu hystyried ar sail natur y cyfeiriad a byddwn o bosib yn cynnal asesiad. Fodd bynnag, nid yw plant 4 oed o reidrwydd â'r capasati i fedru ymgymryd â'r gwaith therapiwtig a ddarperir.

Mae patrwm i'w weld lle gwelir y mwyafrif o blant a gyfeirir yn dod o'r oedran cynradd. Cynigir gwasanaeth therapiwtig 1-1 ar gyfer rhain. Mae'r mwyafrif o blant hyn a gyfeirir yn derbyn gwasanaethau ataliol trwy raglenni STAR, Perthynas Iach a thrwy ysgolion trwy raglenni DEWIS i Crucial Crew (sef digwyddiadau gwybodaeth a chefnogaeth a ddarperir i flynyddoedd 7 i 9).

**9. Beth yw canllawiau mynediad a chyfeirio'r mudiad?**

Mae meini prawf eang ar gyfer gwneud a derbyn cyfeiriadau. Rhaid i blentyn fod rhwng 5 a 18 oed ac yn breswylydd neu'n mynychu ysgol yn ardal Arfon. Lle darperir rhaglenni ataliol (preventative) rhedir y gwasanaeth law yn llaw â Gwasanaeth Trais yn y Cartref De Gwynedd er mwyn sicrhau bod pob ysgol yng Ngwynedd yn derbyn y cyfle.

Bydd plant a phobl ifanc sy'n cael eu cyfeirio yn derbyn asesiad cychwynnol cynhwysfawr er mwyn asesu beth yw 'r anawsterau a chanfod os mai'r' gwasanaeth yma sydd fwyaf addas ar eu cyfer. Pe bai angen cyfeirio at wasanaethau eraill, e.e. (CAMHS) gwneir hyn fel gweithrediad cychwynol (primary action).

Fel a nodir yn flaenorol, heb fewnbwn y gwasanaeth arbenigol hwn bydd nifer sylweddol o plant a phobl ifan yn ardal arfon yn parhau i ddioddef o niwed emosiynol sylweddol ac yn mynd heb y gefnodaeth mae ganddynt yr hawl iddo. Pam a ddyliwn adael dioddefwyr o droseddau atgas fynd heb gefnogaeth?

## Trais yn y Cartref De Gwynedd

**Gwybodaeth ychwanegol sydd ei angen er mwyn canfod effaith y toriad arfaethedig.**

1. **Beth yn union mae’r arian a gyfrannir gan y Cyngor yn mynd tuag ato?**

   Cyfraniad ariannol y Cyngor yn cyflogi 1.5 gweithwyr cefnogol arbenigol plant a phobl ifanc.

2. **Beth yw trosiant y mudiad? (er mwyn adnabod pa ganran o’r incwm sydd dan sylw)**

| 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|---|
| £446,476.32 | £436,233.07 | £497,479.34 | £357,153 (drafft) |

3. **Beth mae’r mudiad wedi ei wneud er mwyn ceisio denu mwy o arian?**

   Mae’r mudiad wedi cyflwyno sawl cais ariannol am grant er mwyn denu mwy o arian, mae wedi llwyddo i gael arian can Lloyds fel canlyniad fod yna arian craidd yno yn barod sef grant y Cyngor.
   Yn anffodus mae nifer o geisiadau eraill wedi bod yn aflwyddiannus. Mae’r mudiad yn parhau i gyflwyno ceisiadau i drio gwarchod y Gwasanaeth.

4. **O ble daw’r cyfeiriadau/gwaith? h.y.**

- **Sawl achos sy’n cael eu cyfeirio gan yr Adran Plant at y mudiad?**
- **Sawl achos sy’n cael eu cyfeirio gan y mudiad i’r Adran Plant?**
- **Oes ffynonellau eraill?**

Derbyniwyd cyfeiriadau gan, Addysg, Iechyd, hun gyfeiriadau gan y teulu, gweithwyr eraill yn y mudiad Gweithwyr Cefnogaeth Symudol a IDVA, Gyda’n Gilydd, Hafan Cymru, CAMHS a Gwasanaethau Cymdeithasol.

| Plant yn derbyn Gwasanaeth gan GTyyCDG | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| Plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | 73 | 42 | 65 |
| Plentyn Mewn Angen | 18 | 13 | 23 |
| Cyfeiriadau i Gwasanaethau Cymdeithasol dim camau pellach | 15 | 6 | 11 |

:

5 **Pa waith arbenigol mae’r gweithwyr a ariannir gennym yn ei wneud?**

Drwy weithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd, ar sail un i un neu mewn grŵp, gan ddefnyddio amrywiaeth o ymyriadau, i ganfod anghenion ac i gyflawni canlyniadau cadarnhaol.

Mae’r gweithwyr wedi ei gymhwyso i gyflwyno rhaglenni STAR (Safety, Trust and Respect) sydd wedi ei datblygu ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi /yn dioddef o drais yn y cartref . Mae rhai rhaglenni yn cynnwys y rhieni hefyd. Mae hyn yn gyfle iddynt drafod eu profiadau, derbyn gwybodaeth am sut i gadw’n ddiogel adref a mynegi eu prydera’u.. Mae yn digwydd mewn awyrgylch ddiogel yng nghwmni plant eraill swyddfeydd a phrofiadau tebyg iddynt hwy.
Darparu cefnogaeth un-i-un i’r rhai hynny nad ydynt eisiau / ddim yn addas i fynychu gwaith grŵp. Hynny yn cael ei ddarparu yn y cartref yn yr ysgol neu yn ein Siop un Stop pwrpasol ar gyfer dioddefwyr o drais yn Nolgellau. Ffocysu ar anghenion unigol y plentyn - teimladau, dicter (anger), a chreu strategaeth delio (coping strategy) ayyb. Trefnu digwyddiadau i’r plentyn gael datblygu sgiliau e.e. celf a chrefft, a chael hwyl er mwyn iddynt gael cymryd rhan yn y gymdeithas gan fod nifer heb gael y cyfle na’r profiadau o wneud hyn.

6. **Beth ydi effaith a/neu werth a/neu ganlyniad y mewnbwn ar y sawl sydd yn derbyn y gwasanaeth?**
**Canlyniadau Gwaith Un i Un**

- Plant a phobl ifanc yn datblygu perthnasau iach gyda’r gweithwyr-diogel yn ei chwmni, ymddiried ynddynt yn ogystal â derbyn parch ganddynt
- Helpu’r unigolion gyda’r cam nesaf yn eu bywydau- symud ysgol, newid coleg mynd i’r brifysgol
- Gallu rhannu eu teimladau efo’r gweithwyr sy’n gwella eu lles emosiynol. Nifer o bryderon yn codi ac felly yn cael cyfle i drafod y pethau sy’n achosi pryder iddynt
- Hyn yn effeithio yn gadarnhaol ar y plant- llai yn gwlychu’r gwely, llai o ymddygiad heriol, llai o broblemau iechyd ee cur yn ben, poen yn bôl, ac felly presenoldeb yn yr ysgol yn cynyddu
- Y teulu yn derbyn cefnogaeth drwy fynd drwy achosion llys ac felly'r plant ddim yn teimlo’r straen i’r un raddfa
- Drwy wybodaeth am beth yw perthynas iach, mae’r plant yn datblygu cyfeillgarwch gan ffrindiau nad oedd yn bosib cyn hyn ac felly llai o drafferthion yn yr ysgol
- Drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned, mae hunanhyder y plentyn yn datblygu
- Dysgu sgiliau newydd o ddelio efo teimladau e.e. dicter, tristwch ac felly’r plant yn teimlo eu bod mewn rheolaeth.

**Canlyniadau Gwaith Grŵp**

- Trafod a rhannu profiadau efo plant eraill sydd wedi profi profiadau tebyg
- Helpu’r plant i sylweddoli nad oedd y trais yn fai ar y plentyn
- Helpu’r plentyn i ddeall, adnabod a thrafod ei theimladau
- Helpu i gynyddu geirfa emosiynol y plant
- Cynyddu ei dealltwriaeth o ffyrdd gwahanol o ddelio efo’u teimladau

- Gwneud cynlluniau diogel er mwyn i'r plant feddwl am ffyrdd o gadw'n ddiogel pe bai angen
- Meddwl am rwydwaith o bobl a fyddai ar gael i helpu a chefnogi'r plant
- Cwblhau'r Rheolau Dicter- peidio brifo eu hunain, neb arall nac eiddo
- Canolbwyntio ar berthnasau positif a negyddol er mwyn helpu'r plant adeiladu perthnasau positif

**Canlyniadau Gwaith Ataliol**
- Plant a phobl ifanc yn dysgu fod ganddyn nhw'r hawl i fwynhau'r iechyd gorau posibl, rhyddid rhag camdriniaeth, fictimeiddio ac ecsbloetio
- Maent yn datblygu hunan-barch ac ymdeimlad o gyfrifoldeb personol.  Deall bod arch tuag at eraill yn bwysig a bod angen parchu amrywiaeth
- Datblygu sgiliau iddynt fyw bywydau diogel ac iach
- Pobl ifanc wedi eu paratoi at heriau, dewisiadau a chyfrifoldebau gwaith a bywyd fel oedolyn
- Dealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng perthynas iach ac adnabod perthnasau afiach
- Eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gamdriniaeth yn y Cartref yn cynyddu
- Dysgu am y materion cymdeithasol ehangach sy'n effeithio arnynt e.e. secstio, pornograffi
- Ymwybodol o asiantaethau/pobl sy'n gallu helpu a chefnogi
- Herio ei safbwyntiau o ran stereoteipiau rhyw
- Deall bod meddyliau, teimladau ac ymddygiadau yn dylanwadu ar ganfyddiadau unigol o'u hunain ac eraill
- Hyn oll yn atal camdriniaeth yn y Cartref mewn perthnasau yn y dyfodol

7. **Ba ganran o'r plant a gefnogir gan y mudiad sydd ar y gofrestr amddiffyn plant?**

Fel y gwelwch yng nghwestiwn 4 mae nifer sylweddol o blant sydd yn derbyn gwasanaeth ar y gofrestr amddiffyn plant.

8. **Beth yw grwpiau oedran y plant a gefnogir gan y mudiad?**

   Oedran y plant a gefnogwyd gan y mudiad yw 4-18.

   Oes oes plant ifengach mae'r rhain yn derbyn cefnogaeth drwy gefnogi'r Fam.

9. **Beth yw canllawiau mynediad a chyfeirio'r mudiad?**

Canllawiau mynediad yw bod plentyn wedi dioddef neu yn dysti trais yn y cartref ac angen cefnogaeth, bod caniatâd rhiant/warchodwr wedi ei dderbyn  a'i bod yn byw yng Ngwynedd,

# CYNNAL ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

Os am gymorth gyda llenwi'r templed yma, cysylltwch â Ruth Richards, Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith ruthrichards@gwynedd.gov.uk est. 2056

## 1) AWDUR (ON) YR ASESIAD

Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd
Swyddog Contractau, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

## 2) PARTNERIAID

Nodwch unrhyw rai eraill sydd angen eu cynnwys fel rhan o'r broses asesu: Gall hyn gynnwys staff rheng flaen, sefydliadau partner, arbenigwyr maes ayb.

Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac Uned Contractau trwy drafodaeth uniongyrchol

Cymorth i Ferched a Thrais yn y Cartref De Gwynedd (trwy gyfarfodydd adolygu cytundebau, trefniadau monitro)

## 3) DYDDIAD DECHRAU'R ASESIAD

Hydref 2014

## 4) DYDDIAD GORFFEN YR ASESIAD

3 Rhagfyr 2014

## 5) NOD AC AMCANION Y POLISI / GWASANAETH / SWYDDOGAETH

Nodwch pam fod angen y polisi a beth mae'r Awdurdod yn gobeithio ei gyflawni drwyddo

- Mae cytundebau trydydd sector yn cael estyniad am flwyddyn ychwanegol hyd at 31/3/16 ac eithrio cytundebau lefel gwasanaeth Cymorth i Ferched a Gwasanaethau Trais yn y Cartref De Gwynedd.
- Fel rhan o gynigion arbedion effeithlonrwydd 2014-2017 mae Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn cynnig dadgomisiynu cytundeb lefel gwasanaeth Cymorth i Ferched (gwerth £20,070) a Gwasanaethau Trais yn y Cartref De Gwynedd (gwerth £33,810)
- Mae'r Adran wedi bod mewn sefyllfa o orfod ystyried pob maes gwasanaeth gan gynnwys y cytundebau 3ydd sector mwyn darganfod arbedion.
- Nid oedd penderfynu cynnig y cytundebau yma yn hawdd, ond o bwyso a mesur effaith arbedion eraill ystyriwyd fod y cytundebau yma gyda'r lleiaf o effaith ac yn rhai sydd ddim yn cyflawni cyfrifoldebau statudol ar ran y gwasanaeth.
- Mae cynnig yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd wedi mynd trwy drefniadau mewnol y Cyngor fel rhan o'r broses hon, h.y. Tîm Rheoli a Gweithgor Arbedion Corfforaethol
- Mae'r cynnig wedi ei drafod fel rhan o arbedion corfforaethol llawn gafodd

eu trafod ym Mhwyllgor Craffu Corfforaethol y Cyngor ar yr 13 Tachwedd 2014.

- Mae cynigion yr adrannau yn mynd ymlaen am benderfyniad terfynol y Cabinet ar yr 16 Rhagfyr 2014

**6) CYFRANOGIAD AC YMGYNGHORIAD**

Pa gyfranogiad ac ymgynghoriad a gynhaliwyd ar y polisi / gwasanaeth / swyddogaeth a beth oedd y canlyniad?

Mae cyfarfodydd adolygu cytundebau blynyddol wedi eu cynnal hefo'r ddau fudiad

Cymorth i Ferched – 26/3/14
Gwasanaethau Trais yn y Cartref De Gwynedd – 03/06/14

Yn bresennol yn y cyfarfodydd oedd rheolwyr y mudiadau, Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a'r Swyddog Contractau. Cadarnhad yn y cyfarfodydd bod y cytundebau yn cael eu hymestyn am 4ydd blwyddyn am y cyfnod 01/04/14 – 31/03/15.

Bu i'r Pennaeth Adran rannu yn ystod y trafodaethau bod y Cyngor a'r adrannau'n wynebau sefyllfa ddyrys o ran cyfyngiadau ariannol oedd ar y gorwel. Yn y cyd-destun hwn, cadarnhaodd nad oedd modd iddi hi fel Pennaeth roi sicrwydd am barhad y cytundeb heibio 31/03/15 ac y byddai pob cytundeb yn cael ei hystyried yn nhrafodaethau ar arbedion effeithlonrwydd.

Bu i'r Pennaeth Adran siarad hefo Rheolwr Gwas. Trais yn y Cartref De Gwynedd ar y 11 Tachwedd 2014 i egluro rhesymeg y penderfyniad fel y nodir uchod. Fe rannodd y Rheolwr ei bod yn siomedig ond yn deall y sefyllfa. Nododd y byddai'n rhoi ystyriaeth i 'exit strategy'.

**7) TYSTIOLAETH SYDD AR GAEL**

Gall y dystiolaeth fod yn seiliedig ar ddata lleol neu genedlaethol, ar fonitro ar ymgynghori, sylwadau staff ayb

1. Data Monitro

Gweler Atodiad 1 am grynodeb o ddata monitro'r ddau fudiad. Pecyn yn ei gyfanrwydd ar gael i aelodau.

2. Y rhai sy'n cael eu heffeithio

Mae Atodiad 1 yn cynnwys adborth y rhai sydd wedi derbyn gwasanaeth gan y ddau fudiad.

**8) BYLCHAU MEWN TYSTIOLAETH**

Nodwch unrhyw fylchau mewn tystiolaeth ac esboniwch sut y caiff y rhain eu llenwi

Mae bylchau monitro o ran y gallu i adnabod a mesur gwir effaith a/neu

lwyddiant ymyrraeth y gwasanaeth a ddarperir gan y mudiadau. Mae’r mudiadau wedi cael eu hannog yn ystod cyfnodau eu cytundebau i gyflwyno tystiolaeth ansoddol yn ychwanegol i’r wybodaeth feintiol oedd eisoes yn cael ei gyflwyno, ond nid oes tystiolaeth ddigonol wedi ei gyflwyno dros y blynyddoedd.

.

**9) PERTHNASEDD AC EFFAITH**

Dylai hyn amlinellu beth yw perthnasedd y polisi/ gwasanaeth/ swyddogaeth i'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol ac i bob un o'r grwpiau cydraddoldeb (nodweddion gwarchodedig). Dylid nodi'n glir beth fydd yn effaith wir neu debygol. Efallai na fydd perthnasedd nag effaith i bob un o'r dyletswyddau na'r nodweddion , ond os canfyddir perthnasedd a/ neu effaith mewn unrhyw un neu fwy o gategorïau, yna bydd gofyn bwrw ymlaen gyda'r Asesiad

**9a)**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **Perthnasedd** | **Yr effaith wirioneddol neu debygol** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Oes | Mae'n wasanaeth sydd lleihau erledigaeth, yn lleihau effaith ar berthnasau da ac sydd yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal. O ganlyniad mae peth risg wrth ddod a'r gwasanaeth i ben megis yr angen am asesiad cydraddoldeb.<br><br>Risg tebygol sydd dan sylw, gan nad oes tystiolaeth i ddangos y byddai effaith gwirioneddol a sylweddol. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Oes | |
| **Meithrin perthnasau da** | Oes | |

**9b)**

| **Nodweddion** | **Perthnasedd** | **Yr effaith wirioneddol neu debygol** |
|---|---|---|
| **Hil** | | |
| **Anabledd** | | |
| **Rhyw** | Oes | Lles tebygol y rhai o fewn y nodwedd hon sydd ar hyn o bryd yn cael mynediad i'r gwasanaeth. |
| **Ailbennu rhywedd** | | |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | | |
| **Crefydd neu gred** | | |
| **Yr iaith Gymraeg** | | |
| **Oedran** | Oes | Lles tebygol y rhai o fewn y nodwedd hon sydd ar hyn o bryd yn cael mynediad i'r gwasanaeth |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | | |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | | |

**NODER:** Perthnasedd i nodweddion 'Rhyw' ac 'Oedran' sydd wedi cael sylw penodol uchod. Fodd bynnag, mae cydnabyddiaeth i'r ffaith y gall gyffwrdd ar unigolion sydd yn meddu ar y nodweddion eraill, ond ddim o ganlyniad uniongyrchol i'r nodweddion**.**

## 10) MYND I'R AFAEL A'R EFFAITH

| | |
|---|---|
| a) | **Nodwch unrhyw effaith posib o safbwynt cydraddoldeb**<br><br>Byddai colli'r gwasanaeth a ddarperir yn debygol o allu cael effaith ar y sawl o fewn dwy nodwedd benodol sydd ar hyn o bryd yn cael mynediad i'r gwasanaeth<br><br>Yn ychwanegol, mae'n wasanaeth sydd yn debygol o allu lleihau erledigaeth, effaith ar berthnasau da ac sydd yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal.<br><br>Nid oes tystiolaeth i ragweld effaith gwirioneddol colli'r gwasanaeth. |
| b) | **Pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma?**<br>Byddai'r mudiadau yn cael eu hannog i adnabod ffynonellau ariannu amgen. |
| c) | **A oes angen ail-ystyried y cynllun?**<br>Pe bai'r cynllun yn cael ei wrthod, byddai'n rhaid i'r Adran ystyried opsiynau eraill er mwyn adnabod arbediad o'r £53,880 sydd dan sylw.<br><br>Gall hyn olygu cwtogi 1.5 Gweithiwr Cymdeithasol sydd yn cyflawni dyletswyddau statudol, fyddai'n arbed £58241. |

## 11) TREFNIADAU MONITRO AC ADOLYGU

Dim

## 12) CYNLLUN GWEITHREDU

Dylid atodi Cynllun Gweithredu sy'n cynnwys y camau gweithredu, cyfrifoldebau, amserlen, ac amlinelliad o'r trefniadau adolygu a gwerthuso

Dim cynllun gweithredu

## 13) PENDERFYNU

Cyflwyno i'r Cabinet am benderfyniad ar 16/12/14

**Atodiad 1**

## Gwybodaeth Ategol (pecyn yn ei gyfanrwydd ar gael)

### Cymorth i Ferched

C1 Adroddiadau Cynnydd (sydd yn cael eu cyflwyno bob 6 mis)
C2 Taflenni Adborth Sesiynau Perthynas Iach
C3 Taflenni Adborth Sesiynau DEWIS
C4 Crynodeb o Ddyletswyddau a Swyddogaethau'r swydd sydd yn cael ei ariannu gan gyfraniad yr Awdurdod

### Trais yn y Cartref De Gwynedd

T1 Adroddiadau Cynnydd (sydd yn cael eu cyflwyno bob 6 mis)
T2 Darlun o ddarpariaeth wythnosol y mudiad
T3 Pecyn yn amlinellu darpariaeth y mudiad (noder: mae taflenni adborth y sawl sydd wedi derbyn gwasanaeth wedi ei gynnwys yn y pecyn hwn)
T4 Crynodeb o Ddyletswyddau a Swyddogaethau'r swydd sydd yn cael ei ariannu gan gyfraniad yr Awdurdod

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR** | **PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **CHWEFROR 12FED, 2015** |
| **EITEM** | **MESURYDD SCC/025 – YMELIADAU STATUDOL I BLANT MEWN GOFAL** |
| **IS BENNAWD** | **CYFLWYNO GWYBODAETH AM BERFFORMIAD YN ERBYN Y DANGOSYDD.** |
| **AWDUR** | **PENNAETH ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD** |
| **ARWEINYDD CABINET** | **CYNGHORYDD MAIR ROWLANDS** |

**1.** Cyflwynir yr adroddiad hon ar gais y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau i rannu gwybodaeth am berfformiad cyfredol y Gwasanaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd yn erbyn mesurydd rhif SCC/025, sydd yn fesurydd perfformiad cenedlaethol i fesur fod ymweliadau statudol i blant mewn gofal yn digwydd ar amser.

**2.** Yn unol â rheoliadau a chanllawiau, mae yn ofynnol i ymweld â phlentyn mewn gofal yn ei leoliad fel isafswm o fewn yr wythnos gyntaf o gael ei leoli, yna pob chwe wythnos am y flwyddyn gyntaf ac yna pob tri mis am weddill cyfnod y plentyn mewn gofal. Mewn rhai amlgychiadau megis pan y lleolir plentyn gyda aelodau o'i deulu neu ffrindiau bydd angen ymweld â'r lleoliad yn wythnosol hyd nes y cofrestrir y gofalwyr fel gofalwyr maeth cofrestredig i'r Awdurdod (Rheoliad 38, Rheoliadau Maethu)

**3.** Ar ddiwedd Rhagfyr 2014 roedd 193 o blant yng ngofal Cyngor Gwynedd wedi eu lleoli unai hefo gofalwyr maeth (mewnol ac asiant), mewn unedau preswyl (mewnol ac allsirol) neu gyda'u rhieni eu hunain. Mae hyn yn gynnydd ar ffigwr diwedd Mawrth 2014 pan oedd 185 o blant mewn gofal. Ers Ebrill 2014 mae 49 o blant wedi dod i ofal am y tro cyntaf. Ar ddiwedd Mawrth 2013 roedd 193 o blant mewn gofal.

**4.** Mae'r oedrannau yn amrywio fel a ganlyn : 8 (4%) o blant o dan flwydd oed; 46 (24%) rhwng 1 a 5 oed; 49 (25%) rhwng 6 a 10 oed; 64 (34%) rhwng 11 a 15 oed a 25 (13%) dros 16oed.

**5.** Roedd perfformiad cyfartalog Cymru yn erbyn y dangosydd yma yn 13/14 yn 85.3%, gyda pherffromiad y teulu yn yr un flwyddyn yn 86.3%. Roedd perfformiad Gwynedd ar ddiwedd 13/14 yn 83.7%.  Gosodwyd targed ar gyfer 14/15 o ffigwr rhwng 83 ac 85%.  Darganfuwyd yn ystod chwarter 1 eleni fod problem yn codi gyda chofnodi'r ymweliadau yma yn gywir ac yn gyson yn y ffurflen bwrpasol yn RAISE er mwyn cael mynediad at wybodaeth gywir. Gwnaed gwaith ar hynny i sicrhau cydymffurfiad o fewn y timau unigol ac ar draws y gwasanaeth gyda'r disgwyliadau yn glir ac eglur i weithwyr a rheolwyr.

**6.** Mae ffigyrau cyfredol o dri chwarter cyntaf y flwyddyn yn hynod o galonogol:
Chwarter 1 – 88.2% (368/417)
Chwarter 2 – 89.5% (418/467)
Chwarter 3 – 87.1% (427/490
Perfformiad cronnus 14/15 – 88.3% (1213/1374)
Gwelir fod y ffigyrau uchod yn rhoi Gwynedd yn y chwartel uchaf o ran perfformiad yn erbyn y dangosydd yma ac nid wyf yn rhagweld y bydd unrhyw ddirywiad ar gyfer Chwarter 4 fydd yn effeithio ar hyn.

**7.** Mae rhai ymweliadau yn hwyr (137), ac mae'r rhesymau am rhain yn wybyddus i'r gwasanaeth gyda chanran uchel ohonynt rhwng 1 – 5 diwrnod yn hwyr.  Mae'r rhesymau am ymweliadau hwyr yn rai rhesymol er enghraifft, salwch plentyn; gofalwyr ddim ar gael; gweithiwr yn cael ei alw i lys; salwch gweithiwr ac yn y blaen.

**8.** Fel gwasanaeth yr ydym yn parhau i fonitro'r perffomiad yn gyson ac yn rheoliadd ac mae sicrwydd yn y data yr ydym yn medru ei gynhyrchu o'r sustem electronig.

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **Pwyllgor Craffu Gwasanaethau** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **12 Chwefror 2015** |
| **TEITL YR EITEM** | **Diweddariad Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion** |
| **AELOD CABINET** | **Y Cynghorydd Gareth Thomas** |
| | |

## 1. CEFNDIR A CHYD-DESTUN

1.1. Mabwysiadwyd strategaeth *'Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd'* yn ddiwrthwynebiad gan y Cyngor Ebrill 2009. Gweledigaeth y strategaeth yw i *"Gynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y sir a'u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog llwyddiannus a chyflawn"* ac amcanion y strategaeth yw:

- Cynnig y profiadau a'r cyfleoedd gorau posibl i blant y Sir drwy sicrhau **dosbarthiadau o faint addas** ac **arweinyddiaeth o ansawdd uchel** yn ein hysgolion;
- Anelu i **hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg** - fel cyfrwng addysgol a chymdeithasol - wrth roi cynigion newydd yn eu lle ar gyfer addysg gynradd y Sir;
- Ymateb i anghenion a chyfleon yn y gyfundrefn addysg gynradd bresennol drwy **fod yn rhagweithiol a chreadigol**, gan weithio ar y cyd gydag eraill tuag at **gynllun hir dymor** fydd yn gynaliadwy ac ymarferol;
- Gwneud y **defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael** – yn ddynol, technolegol, ariannol – fel bod plant yn cael y budd mwyaf o wariant y Sir ar addysg;
- **Creu amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf i blant ac athrawon y Sir** drwy wella cyfleusterau ac adeiladau;
- Datblygu ein hysgolion i fod yn **sefydliadau sy'n ganolbwynt i weithgareddau cymunedol.**

1.2. Penderfynodd y Cabinet ar '*Gynllun Blaenoriaethau – Maes Trefniadaeth Addysg*' yn ei gyfarfod ar 9 Hydref 2012 oedd yn gosod rhaglen waith penodol yn seiliedig ar y strategaeth.

1.3. Rhannau creiddiol o'r gwaith a wneir ydyw;
  - Gwneud gwaith cefndirol a datblygu modelau darparu addysg,
  - Sicrhau cwblhau'r prosesau statudol perthnasol trwy ymgysylltu ac ymgynghori, a
  - Denu adnoddau cyfalaf wrth greu achosion busnes a chyfraniadau gan y Llywodraeth.

Y gobaith ydyw yn unol â'r strategaeth, creu cyfundrefn addysg gadarn, gynaliadwy trwy cael y math a'r nifer addas o ysgolion yn y mannau priodol er mwyn cynnal a gwella safonau nawr i'r dyfodol.

## 2. Y RHAGLEN HYD YMA

2.1. Mae'r rhaglen trefniadaeth ysgolion yn un o'r rhaglenni o newid mwyaf sydd gan Gyngor Gwynedd – dyma grynodeb o'r hyn wnaethpwyd hyd yma:

- Buddsoddiad gwerth **£18 miliwn** wedi ei wneud yn barod i wella amgylchedd dysgu
- 900 o ddisgyblion cynradd wedi elwa o'r buddsoddiad
- **Dros £430,000 o arbedion refeniw blynyddol wedi eu cyflawni eisoes**
- Cau Ysgol Rhydyclafdy Ebrill 2009
- Cau Ysgol Llawr y Betws Awst 2009
- Cau Ysgol Croesor Awst 2009
- Cau Ysgol Abergynolwyn Mawrth 2011

- Adeilad newydd i Ysgol Yr Hendre Medi 2012 gyda buddsoddiad o **£9.326 miliwn**
- Ffedereiddio Ysgolion Glanadda a Coedmawr, Bangor, Medi 2012
- Ymestyn oed mynediad Ysgol Penybryn, Tywyn i dderbyn disgyblion 3 oed yn Medi 2012
- Ffedereiddio Ysgolion Pennal a Dyffryn Dulas (Corris) Medi 2012
- Cau Ysgol Coed Menai, Bangor yn Rhagfyr 2012
- Uwchraddio Ffederasiwn Ysgolion Pennal a Dyffryn Dulas gyda buddsoddiad o **£990,000**
- Cau Ysgol Llidiardau Awst 2013
- Cau Ysgol Aberdyfi Awst 2013
- Uwchraddio Ysgol Penybryn, Tywyn gyda buddsoddiad o **£1.47 miliwn**
- Cau ysgolion Bryncrug, Llanegryn a Llwyngwril Medi 2013
- Agor Ysgol Craig y Deryn Medi 2013 yn dilyn buddsoddiad o **£5.42 miliwn**
- Cau Ysgol Parc Medi 2013
- Uwchraddio Ysgol OM Edwards gyda buddsoddiad o **£1 miliwn**

2.2 Er ei bod yn ddyddiau cynnar mewn rhai sefyllfaoedd, nodir rhai effeithiau addysgol o weithredu'r cynlluniau:

- Arweinyddiaeth
  Mae problemau recriwtio Penaethiaid mewn rhai ardaloedd ac oherwydd hynny ansicrwydd ynglŷn ag arweinyddiaeth nifer o'r ysgolion. Arferai bod angen 8 Pennaeth cynradd yn nalgylch Tywyn, bellach, 3 Pennaeth sector cynradd sydd yn yr ardal – mae hyn wedi lleihau'r broblem recriwtio yn y dalgylch. Gan fod yr ysgolion yn fwy, mae'r Penaethiaid hyn yn cael mwy o amser di-gyswllt i arwain a rheoli eu hysgolion er mwyn gwella safonau a phrofiadau addysgol y disgyblion. Mae'r amgylchiadau Benaethiaid, yn yr ardaloedd dan sylw, i arwain a rheoli eu hysgolion llawer cryfach a sefydlog i'r dyfodol o wneud y newid. Mae nifer o benaethiaid oedd yn dysgu rhan helaeth o'i hamser wedi ei leihau, sydd yn golygu fod mwy o gapasiti i arwain a rheoli ysgolion – ac i ganolbwyntio ar agweddau fel codi safonau.

- Dosbarthiadau
  Yn yr ardaloedd ble mae ad-drefnu ysgolion wedi digwydd, bellach mae amrediad oedran a ddysgir mewn dosbarthiadau yn llawer llai i'r mwyafrif o ddisgyblion. Mae hyn yn golygu fod disgyblion yn cael eu haddysgu mewn grwpiau dysgu gyda chyfoedion o'r un oedran. Mae nifer sylweddol llai o dosbarthiadau yn cynnwys 4 blwyddyn oedran yn nalgylch Tywyn yn dilyn yr ad-drefnu. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i athrawon fedru canolbwyntio ar wella safonau yn hytrach na cheisio sicrhau darpariaeth ar gyfer amrediad oedran eang.

- Cynaliadwyedd
  Ble mae ad-drefnu wedi digwydd, mae sefyllfa'r gyfundrefn addysg yn fwy cynaliadwy a chadarn ar gyfer y dyfodol. Mae 10 sefydliad bychan wedi eu had-drefnu, a oedd oll yn derbyn arian ychwanegol drwy'r rhwyd-ddiogelu staffio. Mae ysgolion gwledig fel Ysgol Craig y Deryn ac OM Edwards yn ysgolion cadarn o ran nifer a fydd yn sicrhau darpariaeth addysg gynaliadwy ar gyfer eu hardaloedd i'r dyfodol. Mae'r ysgolion hyn yn rhai poblogaidd o ran dewis rhieni, ac yn gyffyrddus lawn o ran niferoedd. Mae ad-drefnu yn anelu i sicrhau y defnydd gorau posib o adnoddau a sicrhau darpariaeth gadarn i'r dyfodol.

- Profiad y plentyn
  Gwnaed arolwg gyda disgyblion plant Ysgol Craig y Deryn er mwyn asesu argraffiadau'r disgyblion.

  Yn yr arolwg gynhaliwyd ar y cyd gyda'r ysgol wedi'r tymor cyntaf o'r ddarpariaeth newydd, dyma'r prif ganfyddiadau o ran yr agweddau cadarnhaol ym marn y disgyblion;

  - Ffrindiau newydd,
  - Athrawon a staff caredig,
  - Cyfrifiaduron a thechnoleg da,
  - Bwyd da,

- Dosbarthiadau braf a
- Digon o le i chwarae.

Y materion oedd yn peru pryderon oedd nifer a lleoliadau'r toiledau ar y safle, a'r ffaith nad oedd y glaswellt wedi tyfu er mwyn iddynt gael chwarae arno.

- Amgylchedd Dysgu
  Wrth ad-drefnu ysgolion gwelwyd cyfle i wneud buddsoddiadau cyfalaf i uwchraddio cyfleusterau ac adnoddau i sicrhau bod awyrgylch dysgu addas i ysgolion yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae 4 ysgol wedi ei uwchraddio neu ei hadeiladu o'r newydd i gategori cyflwr A (y categori gorau) ac yn cwrdd â safonau ysgolion yr unfed ganrif ar hugain. Golyga hyn bod disgyblion a staff yr ysgolion yma gyda mynediad at yr adnoddau gorau posib, sydd yn ôl Estyn, yn gallu cael effaith *"fuddiol iawn ar ansawdd addysgu a morâl staff sy'n cael effaith gadarnhaol ar berfformiad disgyblion."*

- Safonau Addysg
  Gan fod nifer o'r cynlluniau newydd ddod yn weithredol ym Medi 2013, does dim asesiadau ffurfiol wedi bod gan Estyn ar rai o'r sefydliadau newydd, neu ar eu newydd wedd. Ond, mae'r cyfuniad o ffactorau nodir yma yn golygu fod yr amgylchiadau yn llawer mwy ffafriol o ran gwella safonau na'r hyn oeddynt yn y gorffennol.

## 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1. Mae'r gwaith yn cael ei rheoli o fewn strwythur rheoli rhaglen PRINCE2 sydd yn golygu bod Byrddau Prosiect a Bwrdd Rhaglen yn cael ei gynnal i sicrhau bod y rhaglen yn cael ei arwain a'i rheoli'n llwyddiannus. Mae fforymau sydd yn sicrhau llais cynrychiolwyr lleol, ac hefyd Aelodau Lleol yn rhan o gyfundrefnau trafodaethau mewn ardaloedd neu ddalgylchoedd unigol.

3.2. Mae fframwaith statudol gyda gofynion prosesau statudol perthnasol yn unol â'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013). Golyga hyn bod gweithdrefnau a phrosesau statudol a phenodol iawn wrth ad-drefnu ysgolion.

3.3. Mae angen dilyn prosesau penodol i ddenu arian gan Lywodraeth Cymru, ac fel rhan o'r broses yma roedd angen i'r rhaglen yn ei chyfanrwydd gael ei hadolygu drwy broses gyfeirir fel *'Adolygiad Gateway'*. Adolygiad annibynnol yw hwn a drefnir gan y Llywodraeth o'r rhaglen trefniadaeth ysgolion fel modd o adolygu'r ffordd mae'r rhaglen drawsnewid hon yn cael ei gweithredu, a'r rhagolygon ar gyfer cyflawni.

*3.4.* Asesiad yr Adolygiad Gateway o raglen trefniadaeth ysgolion Cyngor Gwynedd oedd yr ail orau o bum categori, gan nodi:

"*Canfu'r Tîm Adolygu bod y Rhaglen wedi gwneud cynnydd rhagorol tuag at gyflawni eu gweledigaeth ar gyfer ad-drefnu ysgolion yng Ngwynedd.*

*Mae cyflawni'n llwyddiannus ar y cam hwn yn ymddangos yn debygol oherwydd gweledigaeth glir, cefnogaeth wleidyddol da, cyfeiriad cryf a ddarperir gan yr Uwch Berchennog Cyfrifol (SRO) Iwan Trefor Jones, a brwdfrydedd tîm ymroddedig.*

*Mae'r Rhaglen wedi dangos ei bod yn barod ac yn gallu dysgu gwersi o brosiectau cynharach ac mae hyn wedi arwain at ymgysylltu ardderchog ac eang gyda rhanddeiliaid. Fodd bynnag, bydd angen sylw cyson i sicrhau nad yw risgiau yn troi'n faterion sylweddol sy'n bygwth cyflawni. Bydd angen ystyried pethau fel arweinyddiaeth, gwireddu buddion, sicrwydd rhaglen, amodau'r farchnad a throsglwyddo i fusnes fel arfer.*

*Mae momentwm da o gwmpas y rhaglen ar hyn o bryd, ac os caiff ei gynnal, bydd yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer cyflawni."*

3.5. Mae cynlluniau sydd o fewn Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain yn cael eu cyflawni, ac mae amserlenni ffynonellau grant yn dynn iawn. Ar hyn o bryd mae gwaith yn cael ei wneud ar y prosiectau canlynol:

3.5.1. Sefydlu **Ysgol Bro Llifon** yn Groeslon - ysgol i agor Medi 2015 gyda buddsoddiad o ychydig o dan £5 miliwn

3.5.2. **Dalgylch Y Gader**, Dolgellau

- Cau 10 ysgol ac agor ysgol newydd ar 6 safle - model arloesol a heriol iawn
- Buddsoddiad gwerth £4.3 miliwn
- Arbediad refeniw gwerth £255,000
- Yn ddibynnol ar brosesau statudol a phenderfyniadau Cabinet, mae'n bwriad agor yr ysgol newydd ym Medi 2017

3.5.3. Cwblhau ad-drefnu yn **nalgylch Y Berwyn** - proses ymgynghori i'w chyflawni ac angen sicrhau buddsoddiad o fwy na £9 miliwn i sefydlu Campws Gydol Oes

3.5.4. Sefydlu **Ysgol Arbennig Meirion Dwyfor** - Ysgol Arbennig i 100 o ddisgyblion gyda darpariaeth breswyl i 6 o ddisgyblion i agor Medi 2016 gyda buddsoddiad o fwy na £12 miliwn

3.5.5. Adeiladu Adeilad Newydd ar gyfer **Ysgol Glancegin**, ym Maesgeirchen Bangor

- Buddsoddiad i gael adeilad newydd i'r ysgol dros £5 miliwn
- Anelu i gael yr ysgol yn barod erbyn Medi 2017

## 4. GWIREDDU'R RHAGLEN

4.1. Cymeradwyodd Llywodraeth Cymru gyllideb ar gyfer cynlluniau gwerth **£36miliwn** fel rhan o rhaglen ysgolion yr unfed ganrif a'r hugain. Mae'r arian yma wedi ei gymeradwyo mewn egwyddor ac er mwyn ei ddenu mae gofynion penodol gan Llywodraeth Cymru; mae angen cwblhau achosion busnes yn unol â threfn *'Five Case Business Model'* y Trysorlys. Mae hyn yn golygu creu Achos Amlinellol Strategol (*SOC*), Achos Busnes Amlinellol (*OBC*) ac Achos Busnes Terfynol (*FBC*) yn gysylltiedig â phob prosiect. Mae'r camau hyn yn fwy na llunio dogfennau, rhaid gweithio gyda cynrychiolwyr o'r llywodraeth i sicrhau dealltwriaeth o'r hyn geisir ei gyflawni a sicrhau fod dadleuon a gwybodaeth yn cael eu cyflwyno mewn ymateb i geisiadau neu unrhyw her a gyflwynir.

4.2. Mae'r datblygiadau cyfalaf hyn yn bwysig yn addysgol, ond hefyd, rhaid bod yn effro i'r cyfraniad a wneir i'r economi leol – a hynny mewn cyfnod anodd yn gyffredinol. Ar rai o'r prosiectau cyfalaf hyn mae'r gwariant uniongyrchol gan gyflenwyr lleol (o fewn 20 milltir) yn medru bod cymaint â 70% gyda chyfleon hefyd i fusnesau (siopau, llefydd bwyta ayb) fanteisio ar gyfle presenoldeb datblygiadau mor fawr. Yn ogystal, mae cyfle i greu prentisiaethau fel rhan o'r datblygiad, gwnaed hyn eisoes ar rai cynlluniau gwblhawyd eisoes.

4.3. Fel rhan o gynlluniau trefniadaeth ysgolion, gwireddwyd gwerth dros **£430,000 o arbedion refeniw parhaol** eisoes – ac mae'r cynlluniau sydd ar y gweill, ond eto i'w cyflawni (a nodir uchod) yn mynd i arwain at o leiaf **£345,000 o arbedion refeniw parhaol pellach.**

4.4. Mae tîm o 6 swydd o fewn strwythur yr uned sydd â chost presennol o £246,000. Mae'r swyddi yma yn amrywio fel bod y gallu, arbenigedd a phrofiadau i alluogi cwblhau agweddau o'r rhaglen, yn

cynnwys cwblhau'r prosesau statudol, yr achosion busnes a rheolaeth rhaglen. Comisiynir rolau arbenigol yn ôl yr angen i'r rhaglen trawsadrannol gorfforaethol yma.

4.5. Yn ychwanegol i'r gwaith yma, mae'r tîm yn cyfrannu tuag at waith eraill hefyd. Enghraifft benodol yw cwblhau gwaith o adolygu capasiti ysgolion y Sir. Wrth gwblhau'r gwaith yma galluogodd i'r Cyngor ymateb i'r her o leihau llefydd gweigion rhoddwyd gan y Gweinidog Addysg ac atgyfnerthwyd gan Estyn pan arolygwyd yr Adran Addysg. Ymwelodd Estyn yn ddiweddar i gynnal ymarferiad ôl arolwg er mwyn monitro argymhelliad penodol i'r Sir ar leihau llefydd gweigion. Casgliad cadarnhaol yr ymweliad yma gan Estyn oedd,- fod y Cyngor yn cwrdd â'r her "*i raddau helaeth*".

## 5. GWAITH I'R DYFODOL

5.1. Fel rhan o'r trafodaethau gan y Gweithgor sefydlwyd i adnabod arbedion £4.3m o gyllideb ysgolion, mae'r maes trefniadaeth wedi ei adnabod fel modd o gyfrannu tuag at yr her. Yn y flwyddyn ariannol 2014/15 roedd 21 o ysgolion yn y rhwyd diogelu, oedd yn derbyn dros £600,000 o gymorth ychwanegol. Rhagwelir bydd 23 o ysgolion yn y rhwyd diogelu yn y flwyddyn ariannol 2015/16 a'r tebygrwydd ydy na fydd yr ysgolion hyn yn cyfrannu tuag at y toriad sy'n digwydd i gyllidebau ysgolion eraill y Sir.

5.2. Cafwyd neges glir o'r Gweithgor fod angen cyflymu'r broses o ad-drefnu. Mae'r Gweithgor yn nodi fod cyfle i edrych ar gynlluniau ad-drefnu all gyfrannu tua £200,000 o arbedion pellach i'r dyfodol.

5.3. Felly, o ystyried yr hyn sydd eisoes wedi ei wireddu, y cynlluniau ar y gweill, a'r hyn nodwyd gan y Gweithgor, - mae hyn yn golygu fod y maes ad-drefnu yn ei gyfanrwydd yn mynd i arbed tua £1miliwn o arian refeniw blynyddol.

5.4. Yr awgrym yn hyn o beth yw y bydd angen sicrhau'r capasiti o fewn y maes yn y blynyddoedd nesaf i wireddu'r cynlluniau o newid i drefniadaeth ysgolion, er mwyn lleddfu toriadau i bob ysgol unigol yn y Sir.

5.5. Yn ogystal, mae'r Llywodraeth yn cychwyn ar waith cefndirol i gynllunio Band B – ffenestr gyllido nesaf Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain yn y cyfnod 2019 i 2024. Wrth gwrs bydd union ffigwr ar gyfer y Sir yn amodol ar gynlluniau i'r dyfodol a faint o gyfraniad llywodraeth leol ddisgwylir fel rhan o'r rhaglen. Ond, bydd angen manteisio ar y cyfleoedd hyn i sicrhau gwelliant i'n ysgolion, ond hefyd elwa drwy'r sgil-effaith buddsoddiad i'r economi leol. Bydd angen sicrhau fod gan y Cyngor gapasiti, dealltwriaeth a phrofiad o gyfundrefnau ariannu'r llywodraeth er mwyn sicrhau'r buddsoddiad gorau i Wynedd i'r dyfodol.

5.6. Wrth gwrs, er fod gwireddu arbedion yn angenrhaid o ran y sefyllfa gyllidol, a bod cyfle i ddenu buddsoddiadau cyfalaf yn un dylid fanteisio arno i'r eithaf, rhaid cofio a phwysleisio mai gweledigaeth y strategaeth yw i *"gynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y sir a'u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog llwyddiannus a chyflawn".* Bydd y weledigaeth, a'r amcanion yn greiddiol i'r ystyriaethau wrth fynd ati gyda'r gwaith i'r dyfodol.